

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**Cyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020**

Gorffennaf 2014



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8582  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**Cyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020**

Gorffennaf 2014



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafndiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**William Graham (Cadeirydd)**

Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Mick Antoniw**

Llafur Cymru  
Pontypridd



**Byron Davies**

Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Keith Davies**

Llafur Cymru  
Llanelli



**Dafydd Elis-Thomas**

Plaid Cymru  
Dwyfor Meirionnydd



**Rhun ap Iorwerth**

Plaid Cymru  
Ynys Môn



**Julie James**

Llafur Cymru  
Gorllewin Abertawe



**Eluned Parrott**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canol De Cymru



**David Rees**

Llafur Cymru  
Aberavon



**Joyce Watson**

Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

---

<b>Argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>5</b>
<b>Rhagair.....</b>	<b>8</b>
<b>Cyflwyniad i'r ymchwiliad .....</b>	<b>11</b>
<b>Ymgysylltu strategol .....</b>	<b>12</b>
Ymgysylltu/cyfranogiad cyffredinol o Gymru .....	12
Rôl strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru .....	13
<b>Symudedd rhyngwladol .....</b>	<b>20</b>
Erasmus+ .....	20
Manteision Erasmus .....	21
Y rhwystrau i Erasmus .....	22
Targedau ar gyfer cynyddu symudedd.....	24
Mecanweithiau cymorth .....	27
Gwaith ieuenctid a gwirfoddoli rhyngwladol .....	27
<b>Cydweithio rhyngwladol.....</b>	<b>31</b>
INTERREG .....	31
Cyfraniad awdurdodau lleol .....	32
<b>Ewrop Greadigol.....</b>	<b>36</b>
<b>Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T).....</b>	<b>39</b>
Rheoliadau TEN-T a Chyfleuster Cysylltu Ewrop .....	39
Hepgor Cymru o'r rhwydwaith coridor craidd .....	40
Cymryd rhan yn TEN-T/CEF yn y dyfodol .....	42
<b>Atodiad A – Cylch gorchwyl yr ymchwiliad .....</b>	<b>46</b>
<b>Atodiad B – Rhaglenni a gafodd eu cynnwys yn yr ymchwiliad.....</b>	<b>47</b>
<b>Atodiad C – Digwyddiad rhanddeiliaid, 6 Mawrth 2014 .....</b>	<b>48</b>
<b>Tystion.....</b>	<b>53</b>
<b>Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>55</b>



## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol. Cyfeirir ein hargymhellion at Lywodraeth Cymru oni nodir yn wahanol.

**Argymhelliad 1.** Sicrhau bod y strategaeth newydd ar yr UE yn gosod amcanion clir i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ym mhob rhaglen UE sydd ar gael i Gymru, gan gynnwys bod gofyniad ar adrannau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymgysylltu o fewn eu cylch gwaith, a manteisio ar y profiad a'r arbenigedd sylweddol ar bolisi a chyllid yr UE sydd ar gael yng Nghymru ac ymhlith cynrychiolwyr ym Mrwsel.

(Tudalen 19)

**Argymhelliad 2.** Ystyried sefydlu "Hyrwyddwr Cyllid yr UE" yng Nghymru i roi arweiniad wrth yrru'r gwaith o ddarparu a gweithredu strategaeth newydd yr UE a darparu canolbwynt ar gyfer materion yr UE yng Nghymru.

(Tudalen 19)

**Argymhelliad 3.** Sefydlu dolen gyswllt ganolog ar gyfer sefydliadau yng Nghymru ac ar gyfer y rhai y tu allan i Gymru sy'n chwilio am bartneriaid o Gymru.

(Tudalen 19)

**Argymhelliad 4.** Datblygu cymorth arbenigol, wedi'i deilwra, ar gyfer y sectorau ieuencid, addysg a thrafnidiaeth tebyg i fodel MEDIA Antenna y sector diwylliannol.

(Tudalen 19)

**Argymhelliad 5.** Meithrin partneriaethau rhwng rhanddeiliaid ledled y sectorau addysg uwch a phellach, byd busnes a'r trydydd sector i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da.

(Tudalen 19)

**Argymhelliad 6.** Adolygu'r gynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel er mwyn mynd i'r afael â bylchau cyfredol, yn enwedig o ran sut y gall busnesau, addysg bellach a'r trydydd sector a'r sectorau creadigol a diwylliannol gyrchu ei wasanaethau.

(Tudalen 19)

**Argymhelliad 7.** Pennu amcanion clir ar gyfer pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru i ymgysylltu mwy â'r strategaeth DU gyfan ar gyfer symudedd allanol myfyrwyr, gan gynnwys: ymgyrch i hyrwyddo manteision astudio a gweithio dramor, darparu cyrsiau dysgu iaith, cynorthwyo gyda darpariaeth llety tymor byr, rhyngwladoli'r cwricwlwm a darparu gallu a chyllid cymesur.

(Tudalen 26)

**Argymhelliad 8.** Gyda sefydliadau addysg uwch, archwilio'r posibilrwydd o greu rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys myfyrwyr Erasmus, sydd wedi astudio yng Nghymru a myfyrwyr o Gymru sydd wedi astudio dramor, er mwyn sicrhau bod eu cysylltiadau rhyngwladol yn cael yr effaith fwyaf bosibl. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 9.** Dwyn ynghyd sectorau addysg bellach ac uwch ac asiantaethau cenedlaethol fel y British Council, Ecorys a sefydliadau fel ECTARC i ddatblygu synergeddau, rhannu arferion gorau, a meithrin cysylltiadau i gyrchu elfennau cyllid ar wahân ac ymgysylltu â'r rhaglenni a gynhelir ar hyn o bryd o fewn y Comisiwn Ewropeaidd. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 10.** Monitro tueddiadau o ran symudedd myfyrwyr, gan gynnwys data y British Council ar ei raglenni Erasmus+ a rhaglenni ieuenctid, a sicrhau bod canlyniadau ac effaith ymgysylltu a chyfranogi gan y sector ieuenctid yn cael eu dal yn systematig. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 11.** Ystyried darparu cyllid strategol craidd ar gyfer sefydliadau ieuenctid yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i gyrchu mwy o gyllid yr UE ar gyfer gwaith ieuenctid a gwirfoddoli rhyngwladol. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 12.** Gweithio gyda llywodraeth leol i ddwyn ynghyd y bobl sydd â'r arbenigedd perthnasol i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cryfhau a hyrwyddo cyfranogiad uniongyrchol awdurdodau lleol yn y gwaith ehangach o ddatblygu a chychwyn ffrydiau polisi ac ariannu Ewropeaidd ac ar gyfer integreiddio'r cronfeydd gwahanol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Cymru. (Tudalen 35)

**Argymhelliad 13.** Hyrwyddo sector diwydiannau creadigol Cymru yn Ewrop er mwyn sicrhau nad yw cwmnïau o Gymru o dan anfantais wrth wneud cais am gyllid drwy raglen Ewrop Greadigol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn rhan o ddiwydiant clyweledol cryf y DU yn gyffredinol. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 14.** Adolygu a dysgu o'r ymgysylltu blaenorol a gafwyd gyda DG MOVE ac Asiantaeth Weithredol TEN-T ym Mrwsel, gan ganolbwyntio ar drafod Rheoliadau diweddar TEN-T a CEF a'r diffyg ceisiadau o Gymru ar gyfer rhaglen 2007-13. (Tudalen 45)



**Argymhelliad 15.** Datblygu perthynas waith agos â DG MOVE, yr Asiantaeth Weithredol Arloesedd a Rhwydweithiau a'r Cydgysylltwyr TEN-T er mwyn sicrhau bod Cymru'n manteisio'n llawn ar y CEF.  
(Tudalen 45)

**Argymhelliad 16.** Gweithio gyda rhanddeiliaid o Gymru, yr Adran Drafnidiaeth a phorthladdoedd craidd mewn Aelod-wladwriaethau eraill, yn enwedig Iwerddon, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a datblygu cyfres o brosiectau priodol.  
(Tudalen 45)

## Rhagair

---

1. Yn yr ymchwiliad hwn, aethom ati i archwilio ystod o raglenni cyllido'r UE sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes. Mae'r ymchwiliad yn ategu ein hadroddiadau yn y gorffennol ar Gronfeydd Strwythurol yr UE ac ar Horizon 2020, ac mae'n adleisio nifer o gasgliadau ac argymhellion allweddol o adroddiad diweddar gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.<sup>1</sup>
2. Gyda rhai eithriadau nodedig, rydym yn gweld nad yw Cymru'n manteisio digon ar y rhaglenni cyllido eraill hyn yn yr UE, ac maent yn cael eu diystyru i raddau helaeth ar draul Cronfeydd Strwythurol yr UE a rhaglenni Datblygu Gwledig. Ac eto maent yn werth tua €42 biliwn ar gyfer y cyfnod 2014-20 ac mae'r manteision y gallant eu cynnig i unigolion, i sefydliadau ac i Gymru yn gyffredinol yn rhesymau cryf dros ben dros gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad Cymru yn y dyfodol.
3. Un esboniad ar gyfer y lefel is o ymgysylltu yn y rhaglenni UE hyn yw'r cymhlethdod o ran sut y cânt eu rheoli. Yn wahanol i'r Cronfeydd Strwythurol a'r rhaglenni Datblygu Gwledig, maent yn cael eu dyrannu drwy gylchoedd ymgeisio cystadleuol a reolir y tu hwnt i Gymru. Yn aml iawn, cânt eu rheoli'n ganolog o Frwsel ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau o wledydd eraill yr UE mewn partneriaeth a hyd yn oed gyda gwledydd ymhellach i ffwrdd.
4. Mae yna hefyd amrywiaeth mawr o ran lefel y gefnogaeth sydd ar gael i hwyluso cyfranogiad, yr amrywiaeth o gamau gweithredu a gefnogir, y meysydd polisi dan sylw, a'r rheolau a'r prosesau sy'n berthnasol. Mae cael gafael ar yr arian, felly, yn golygu buddsoddiad sylweddol o ran amser ac ymdrech ynghyd â chryn wybodaeth, dealltwriaeth ac arbenigedd, heb sôn am y gallu a'r adnoddau i ganfod a datblygu partneriaethau a chysylltiadau y tu hwnt i Gymru.
5. Mae ymrwymiad cryf ar lefel sefydliadol ac unigol yn rhagofyniad i gyfranogi llwyddiannus - er nad yw'n ei warantu. Mae rhai enghreifftiau

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE, Mawrth 2014

clir o ymrwymiad o'r fath: yr hyn a gyflawnwyd yn y sectorau addysg bellach ac uwch yng Nghymru, a gwaith rhagorol yr Athro Colin Riordan, Llywydd ac Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd, yn hyrwyddo mwy o symud tuag allan ymhlith myfyrwyr addysg uwch, er gwaethaf diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru yn yr agenda hon.

6. Ar y llaw arall, ceir tystiolaeth hefyd o ddiffyg ymrwymiad, yn enwedig ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru, er gwaethaf y lefel gymharol uchel o adnoddau y maent yn eu neilltuo i gefnogi gweithgareddau'r UE, ac yn y sector preifat.

7. Clywsom dystiolaeth gref bod teilwra cymorth - sy'n gallu cynnwys lefelau cymharol fechan o adnoddau - yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i lefelau cyfranogi. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan Media Antenna Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y sector creadigol a diwylliannol.

8. Unwaith eto, clywsom hefyd fod y gefnogaeth sydd ar gael yn tueddu ar y cyfan i fod yn ad hoc, yn rhaglen-benodol a chul ei ffocws. Nid oes unrhyw gyswllt neu adnodd canolog yng Nghymru er mwyn cael gwybodaeth a chyngor cyffredinol ar gyrchu'r ystod eang o raglenni yn yr UE. Yn yr un modd, nid oes dolen gyswllt amlwg ar gyfer sefydliadau y tu allan i Gymru sy'n chwilio am bartneriaid ar gyfer prosiectau neu sy'n awyddus i Gymru gyfranogi mewn gweithgareddau UE.

9. Unwaith eto, clywsom sut mae gan Iwerddon a'r Alban ddull mwy cydgysylltiedig a rhagweithiol o ymgysylltu â rhaglenni yr UE, gan adleisio tystiolaeth yn ein hymchwiliad Horizon 2020.

10. Un o'n casgliadau allweddol yw bod angen cael strategaeth gydlynol ar gyfer *holl* raglenni polisi a chyllid yr UE, a all fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltiad gan Gymru a chreu synergedd â blaenoriaethau a mentrau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicr yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd yn ymchwiliad yr UE y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Dylai strategaeth o'r fath gael ei datblygu mewn ffordd agored a thryloyw, gan fanteisio ar brofiad ac arbenigedd ym meysydd polisi a chyllid yr UE sy'n amlwg yn bodoli yng Nghymru ac ymhlith cynrychiolwyr ym Mrwsel. Dylai'r strategaeth hefyd edrych ar y cwestiwn o ba fecanweithiau cymorth sy'n briodol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r bylchau presennol a dylai ddarparu strwythur

cydgysylltiedig cynhwysfawr ac arbenigol a fydd yn hwyluso cymryd rhan yn rhaglenni cyllido'r UE.

11. Rydym hefyd yn cytuno gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bod angen i bresenoldeb Cymru ym Mrwsel fod yn gryfach, yn ehangach ac yn fwy amlwg, er mwyn codi proffil Cymru a'n rhoi mewn sefyllfa well yn y partneriaethau, rhwydweithiau a thrafodaethau polisi sydd o bwys.

12. Felly, mae angen i Gymru ddysgu llawer iawn ac yn bwysicach fyth, mae angen newid diwylliannol, i gynyddu ymgysylltiad yn y rhaglenni hyn yn gyffredinol, yn enwedig ymhlith llywodraeth leol a'r trydydd sector a'r sector busnes. Mae rhai sefydliadau y buom yn siarad â hwy yn ystod yr ymchwiliad hwn yn bwrw golwg strategol ac yn mynd ati'n strategol i gael gafael ar gyllid yr UE, ond yn ddi-os, nid yw'r DU yn gyffredinol, a Chymru yn arbennig, yn manteisio ar y cyfleoedd.

13. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad strategol ar gyrchu arian Ewropeaidd yn ei gyfanrwydd. Felly, roeddem yn falch o glywed gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, ei bod yn croesawu ein hymchwiliad ac mai ei dyhead yw cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar gyllid o holl raglenni cyllido'r UE oherwydd y gallant ein helpu i gyflawni ein hamcanion, yn enwedig o ran twf a swyddi.<sup>2</sup>

14. Pan ddaw'r Gweinidog i adolygu a diwygio Strategaeth UE Llywodraeth Cymru, fel y dywedodd ei bod wedi ymrwymo i wneud, hyderwn y bydd ein hargymhellion yn cael eu hystyried. Credwn y bydd y buddsoddiad yn y pen draw yn werth chweil.

---

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 531, 20 Mawrth 2014

## Cyflwyniad i'r ymchwiliad

---

15. Bu'r ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar y rhaglenni UE hynny sydd fwyaf perthnasol i'n cylch gwaith, ac eithrio Cronfeydd Strwythurol a Horizon 2020, gan ein bod wedi adrodd ar y mentrau hynny'n ddiweddar. Nodir cylch gorchwyl llawn yr ymchwiliad yn Atodiad A.

16. Dyrennir cyllid UE cyfunol o tua € 42 biliwn ar gyfer y cyfnod 2014-20 saith mlynedd i'r rhaglenni dan sylw. Maent yn darparu cefnogaeth ar gyfer ystod o wahanol brosiectau a gweithgareddau, gan gynnwys addysg, hyfforddiant, chwaraeon, ieuenctid, diwylliant, diwydiannau creadigol, trafndiaeth, cyllid Busnesau Bach a Chanolig a meysydd eraill o ddiddordeb (gweler Atodiad B am ddisgrifiad byr o bob un):

- Erasmus+ (€14.7 biliwn);
- Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF)/Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) (€15 biliwn);<sup>3</sup>
- Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol (INTERREG) (€8.7 biliwn);
- Ewrop Greadigol (€1.46 biliwn);
- Rhaglen Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig (COSME) (€2.03 biliwn).

17. Cawsom 21 ymateb ysgrifenedig i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig, a ddaeth i ben ddiwedd mis Ionawr 2014. Cawsom dystiolaeth lafar gan 13 o baneli o dystion. Aethom hefyd ar ymweliad canfod ffeithiau deuddydd i Frwsel ar 12-14 Chwefror gan gyfarfod â Chyfarwyddiaethau Cyffredinol perthnasol yn y Comisiwn Ewropeaidd, a chynrychiolwyr cenedlaethol, rhanbarthol ac eraill sydd wedi'u lleoli ym Mrwsel. Ein nod oedd deall y gwahanol raglenni yn well a'r dulliau y mae gwledydd eraill wedi'u mabwysiadu i gyrchu arian yr UE.

18. Ar 6 Mawrth cynhaliwyd trafodaethau bord gron ar Gampws Cyncoed Coleg Prifysgol Metropolitan Caerdydd gyda staff a myfyrwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar raglen symudedd Erasmus ym maes addysg uwch. Mae crynodeb o'n trafodaethau wedi'i gynnwys yn Atodiad C

---

<sup>3</sup> Heb gynnwys y £11.3 biliwn a frigidorwyd o'r Gronfa Cydlyniant a fydd yn cefnogi prosiectau TEN-T fel rhan o gyllideb CEF yng ngwledydd y Gronfa Cydlyniant, gan nad yw hyn yn berthnasol i Gymru/DU

## Ymgysylltu strategol

---

### Ymgysylltu/cyfranogiad cyffredinol o Gymru

19. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'n hymchwiliad yn dangos ystod eang o wybodaeth ar brosiectau a chyfranogiad gan sefydliadau o Gymru yn amrywiol raglenni'r UE yn ystod 2007-13, y "rhagflaenwyr" i'r rhaglenni ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

20. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogiad wedi bod yn y Rhaglen Dysgu Gydol Oes, y Rhaglen MEDIA, y Rhaglen Ieuencid ar Waith a'r Rhaglenni INTERREG,<sup>4</sup> gyda rhywfaint o gyfranogiad yn y Rhaglen Diwylliant ac i raddau llai y Rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi. Ni chafwyd unrhyw geisiadau ac ni chafodd unrhyw arian ei sicrhau gan Gymru yn ystod 2007-13 o dan y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T).

21. Ymddengys bod Cymru wedi perfformio'n dda mewn nifer o'r rhaglenni UE hyn. Er enghraifft, yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig gan Addysg Uwch Cymru Brwsel, roedd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd "hanes eithriadol" o gymryd rhan yn Erasmus Mundus. Cafwyd cyfranogiad trawiadol gan sector diwydiannau creadigol Cymru hefyd yn y Rhaglen MEDIA, ac ymgysylltu gan y sector ieuencid a gwirfoddol yn y Rhaglen Ieuencid ar Waith.

22. Fodd bynnag, un thema sy'n codi dro ar ôl thro yn y dystiolaeth,<sup>5</sup> yw bod y flaenoriaeth uchel a roddir i Gronfeydd Strwythurol a Rhaglenni Datblygu Gwledig yng Nghymru wedi arwain at gyfyngu ar gyfranogiad yn y rhaglenni UE eraill.

23. Thema arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad oedd yr amrywiaeth yn y gefnogaeth a'r gallu i gyfranogi yn rhaglenni cyllido'r UE o fewn sefydliadau yng Nghymru. Mae swyddogion Ewropeaidd mewn llywodraeth leol a chydlynwyr ym maes addysg bellach ac addysg uwch, ynghyd â phresenoldeb ym Mrwsel ar gyfer y ddau, ond nid dyma'r darlun cyffredinol yn y sectorau ieuencid, gwirfoddol neu fusnes. Lle mae rolau o'r fath yn bodoli, mae'r rhain yn aml yn canolbwyntio'n gul ar Gronfeydd Strwythurol yr UE a Datblygu Gwledig,

---

<sup>4</sup> Rhaglenni cydweithredu tiriogaethol yw INTERREG

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol.

heb fawr o sylw neu ddiddordeb yn rhaglenni eraill yr UE; roedd hyn yn arbennig o wir ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.

24. Ond roedd adborth diamheuol am fanteision cymryd rhan yn rhaglenni cyllido'r UE: yr effaith ar unigolion - sgiliau, profiad, dysgu, twf, hyder a gwell cyflogadwyedd; yr effaith ar sefydliadau - gallu, sgiliau, proffil; datblygu partneriaethau rhyngwladol gwerthfawr a pharhaol a phrofiad rheoli prosiectau; ac allbynnau o ran prosiectau gweithgaredd, addysg, diwylliant, ffilm, twristiaeth a chymunedol.

25. Yn benodol, mae angen deall yn well gymhlethdodau strwythurau a phrosesau y gwahanol raglenni sydd ar gael a'r cysylltiadau rhyngddynt, yn enwedig os yw'r rhaglenni yn cael eu rheoli'n ganolog o Frwsel ac os ydynt yn cael eu dyrannu drwy asiantaethau cenedlaethol y DU.

### **Rôl strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru**

26. Un o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwiliad hwn oedd rôl allweddol Lywodraeth Cymru, a'r rôl y gallai ei chwarae yn y dyfodol.

27. Pan aethom ati i graffu ar Lywodraeth Cymru ac ar ei hanes o ran cyllid yr UE, dywedwyd wrthym sawl gwaith bod y Llywodraeth yn blaenoriaethu ei hymdrechion a'i bod yn realistig am y ffordd orau o dargedu ein hadnoddau yn hytrach na'i bod yn chwilio am yr arian.<sup>6</sup> Yr argraff a gafwyd oedd y bydd canolbwyntio, yng ngeiriau'r Gweinidog, ar ddal y pysgod mwy.<sup>7</sup>

28. Roedd hi'n ddiddorol clywed gan Rwydwaith Mentergarwch Ewrop ym Mhrifysgol Abertawe am reswm sylfaenol arall o bosibl:

“The COSME funds and Erasmus, in some respects, are harder to win; the Structural Funds are slightly easier to win. I wonder if that is why the emphasis is the way that it is. I believe there is a big opportunity through COSME.”<sup>8</sup>

29. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl i gyfranwyr eraill fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Colegau Cymru, Addysg Uwch Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 566-568, 20 Mawrth 2014

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 577, 20 Mawrth 2014

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 198, 26 Mawrth 2014

Prydain a llywodraeth leol drwy CLILC neilltuo adnoddau ar gyfer gweithgarwch yr UE a chynorthwyo i gefnogi sefydliadau llai. Fodd bynnag, roedd yn **barod i ystyried rôl ar gyfer Llywodraeth Cymru wrth lenwi unrhyw “fylchau”**.<sup>9</sup>

30. Mae hwn yn bwynt pwysig ac rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod cyfrifoldeb ar bob sefydliad a'r holl sectorau allweddol i chwarae eu rhan i gefnogi ymgysylltu, os ydym am i Gymru gyfranogi i'w heithaf yn amrywiol raglenni cyllid yr UE ar gyfer 2014-20. Mae hyn yn cynnwys edrych ar synergeddau ar draws sefydliadau, gan gynnwys cyfuno adnoddau ac arbenigedd, a gweithio'n well mewn partneriaeth.

31. Rydym yn nodi o dystiolaeth Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu adolygu a diwygio ei Strategaeth Cydweithredu Tiriogaethol er nad oes amserlen wedi cael ei hawgrymu eto. Rydym yn ymwybodol bod Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad wedi galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu a diwygio ei strategaeth UE drwy ymgynghori agored a ffurfiol i ennyn diddordeb ac arbenigedd allweddol yng Nghymru. Rydym yn cefnogi'r alwad hon i'r carn ac yn tanlinellu pwysigrwydd Strategaeth newydd yr UE ar gyfer y cyfnod cyllido 2014-20.

32. Mae gwaith strategol i'w wneud hefyd o ran monitro a gwerthuso. Dywedodd Liz Mills<sup>10</sup> wrthym.

“It is very good to capitalise on what you have done before, but we also need to learn at a strategic level what these programmes are delivering, because that is something that we are not doing so well.”<sup>11</sup>

33. Adleisiwyd y pwynt gan Dr David Llewellyn:<sup>12</sup>

“With the WECAN project, we have developed many things that could perhaps shape the way that Welsh Government does things in the future. However, so far, we have not seen where the Welsh Government and perhaps other partners have taken advantage and the opportunity to do that. It is developing, but

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 569 a 579, 20 Mawrth 2014

<sup>10</sup> Mae Dr Liz Mills yn ymgynghorydd annibynnol sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ac sy'n arbenigo yn rhaglenni cyllid yr UE

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 452, 20 Mawrth 2014

<sup>12</sup> Mae Dr David Llewellyn yn ymgynghorydd arbenigol gyda phrofiad o brosiectau INTERREG fel WECAN (Working together for Economically prosperous Communities through Assets of Natural Heritage).



it perhaps has to be more strategic to see what we have learnt and how we can take that forward in the mainstream.”<sup>13</sup>

34. Dywedodd Dr Anne Howells:<sup>14</sup>

“The quality of the applications could be improved if a group of experienced evaluators and reviewers could be established so that we could share best practice across Welsh higher education and get a higher success rate in funding grants.”<sup>15</sup>

35. Roedd Dr Mills yn cefnogi'r awgrym hwn, ac roedd yn bwyt a wnaed gan addysg uwch Cymru a argymhellodd greu Cymuned Ymarfer Ewropeaidd er mwyn dwyn ynghyd arbenigwyr ym maes ysgrifennu a gwerthuso cynigion Ewropeaidd i gefnogi ymgysylltu yn y dyfodol.

36. Ni allwn bwysleisio digon y pwysigrwydd o fanteisio ar brofiad ac arbenigedd unigolion wrth yrru prosiectau a newid sefydliadol ymlaen. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i ddod â'r bobl hynny ynghyd a darparu llwyfan ehangach iddynt fel y gallant ddefnyddio'u harbenigedd.

37. Clywsom yn ystod ein cyfarfodydd ym Mrwsel sut y mae Llywodraeth Iwerddon, er enghraifft, wedi datblygu strategaeth genedlaethol i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl yn rhaglenni'r UE ar gyfer 2014-2020 a bod pob adran o'r llywodraeth wedi cael eu cyfarwyddo i yrru'r agenda honno ymlaen o fewn eu meysydd polisi perthnasol. Clywsom hefyd am brofiadau llwyddiannus Denmarc - sut y mae'n cysylltu ei changen ym Mrwsel gyda'i phartneriaid yn ôl yn Nenmarc - a Rhanbarthau fel Gogledd Iwerddon a Chaint.

38. Roedd Dr Mills yn canmol gwaith Scotland Europa gan ddweud eu bod yn fwy unedig yn y ffordd y maent yn cydweithio, er enghraifft, gyda swyddfa Brwsel.<sup>16</sup> Crybwyllodd Dr Mills y diffyg ymwybyddiaeth ac ymgysylltu yng Nghymru hefyd yn y rhaglen URBACT:

“The URBACT programme, as I wrote in my note, has not been used in Wales very much at all. I think that people have not quite twigged the link between that programme and the current

---

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 454, 20 Mawrth 2014

<sup>14</sup> Mae Dr Anne Howells yn Swyddog Datblygu Ewropeaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 492, 20 Mawrth 2014

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 459, 20 Mawrth 2014

preparation of the mainstream Structural Funds programmes, which now have specific urban instruments that we are supposed to be using. However, we are not really doing it terribly effectively at the moment in Wales. We are not quite on message. I think that it just reflects our lack of engagement, partly at least, with this programme. This is going to happen more and more. For example, the new INTERREG Europe programme will be much more specifically focused on using the collaborative work to improve the design of the mainstream programmes in later rounds. So, in a way, it will constrain what we can do. However, it is intended to make the spending of the main funds a lot more effective.”<sup>17</sup>

39. Siaradodd Dr Mills am yr angen i ddeall pensaernïaeth y system Ewropeaidd; am ymgysylltu mwy â'r gymuned bolisi a sefydliadau sy'n gymwys i dderbyn cyllid; a dod â phobl i mewn i'r system Ewropeaidd yn fwy gweithredol. Dadleuodd dros gorff ehangach, mwy strategol i dynnu popeth ynghyd:

“It would be good if the strategy pulled things together a bit more than it does. In terms of organisational arrangements, we do not really have one body tasked with an overview of all the funding programmes at the moment. We have the Welsh European Funding Office, with a very strong focus on the mainstream Structural Funds and the administration of some of the territorial co-operation budgets, and it is now bringing in Horizon 2020, with a new unit dealing with this. However, it is not doing the same kind of job as is done in other European regions, which have a much more outward facing way of working and are capable of brokering projects, for example.”<sup>18</sup>

40. Dywedodd fod angen gwell cysylltiad rhwng y bobl sy'n gyfrifol am yr agendâu polisi amrywiol a'r rhai sy'n gyfrifol am yr arian:

“WEFO is the managing authority with very specific duties in terms of audit and that kind of thing. So, it is money managing, but there is other work to be done in terms of smartly connecting policy in Wales and the needs of Wales to the European policy agenda and working out how the money fits with that. So, it is a different kind of role, really. There is also a

---

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 464, 20 Mawrth 2014

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 485-487, 20 Mawrth 2014

possibility of conflicts of interest. In most of the centrally managed EU programmes, there is a clear separation between project development support and the people who make the decisions about who gets money. In WEFO, you have to think about which civil servants are tasked with doing project development type of work and which are responsible for the audit side. The same person should not really be doing both jobs. So, you do need to make sure that you have staff with a relevant range of capacities and job descriptions.”<sup>19</sup>

41. Roeddem yn bryderus o glywed gan Dr Llewellyn nad oedd wedi delio â WEFO o gwbl yn ei holl drafodion ag INTERREG, ac nad oedd wedi cael fawr ddim cyswllt â swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel. Cymharodd hyn â gwledydd a rhanbarthau eraill fel Iwerddon a Lorraine yn Ffrainc, a oedd yn llawer mwy effeithiol.<sup>20</sup>

42. Dadleuodd Dr Mills o blaid dolen gyswllt glir i bobl y tu allan i Gymru i weithio gyda phartneriaid yng Nghymru. Awgrymodd Dr Mills a Dr Howells y gallai cynllun SCoRE Cymru WEFO (Cefnogi Ymchwil Cydweithredol ac Arloesi yn Ewrop) gael ei ymestyn i gynnwys arian cyfatebol i gefnogi ceisiadau ac i gynnwys prosiectau INTERREG.<sup>21</sup>

43. Roedd hi'n ddiddorol clywed gan Rwydwaith Mentergarwch Cymru (EEN) ym Mhrifysgol Abertawe bod rôl gryfach gan Lywodraeth Cymru yn EEN - a chan adran arloesi'r Llywodraeth yn arbennig - yn hollbwysig i'w lwyddiant:

“EEN has a limited resource envelope. The reach of the EEN is limited by its resource investment. That is why we have to ensure that it is co-ordinated with the rest of the delivery in the regions and that is really important. That is why, for me, a partnership with the Welsh Government over the next six years is fundamental to the success of not just EEN, but Wales, in fact, when we look at grant capture from Europe. Partnership is the way forward.”<sup>22</sup>

44. Yn olaf, clywsom lawer am y rhwystrau a'r costau cyfranogi, fel yr amser a gymerir i lunio cais a chydlynu partneriaid lluosog, yn enwedig

---

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 489, 20 Mawrth 2014

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 493, 20 Mawrth 2014

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 491 a 512, 20 Mawrth 2014

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 26 Mawrth 2014

yr her o ran adnoddau a diffyg cefnogaeth i sefydliadau bach yn y trydydd sector a'r sector preifat. Awgrymodd Dr Llewellyn:

“The Welsh Government could support smaller organisations or partners of whatever size to spend time and a little bit of money in making robust applications...consequently we fail to get the results out of it at the end, compared with some other countries.”<sup>23</sup>

45. Mae'r holl gyrff porthladdoedd y buom yn siarad â hwy yn gefnogol i'r syniad o gryfhau llais diwydiant Cymru yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel, fel yr oedd tystion eraill megis Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth a Rhwydwaith Mentergarwch Ewrop ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd yn ddiddorol clywed gan Rwydwaith Mentergarwch Ewrop na fu unrhyw sgwrs am y sector addysg uwch yn ehangu ei chynrychiolaeth i gynnwys busnes.<sup>24</sup>

46. Soniodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) Cymru Wales am ddiffyg strategaeth gyfredol ar gyfathrebu gyda busnesau bach a chanolig o ran ymgysylltu â chyfleoedd cyllido'r UE a'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni mewn iaith y maent yn ei deall fel busnesau bach a chanolig.<sup>25</sup>

47. Awgrymodd Rhwydwaith Mentergarwch Cymru:

“Ultimately, it is about a partnership between organisations such as universities and the Welsh Government, working together to be able to communicate the messages of how businesses can access the funding and ensuring the right support is there to allow companies to make these applications for funding in a streamlined way.”<sup>26</sup>

48. Mae'r argymhellion sy'n dilyn, felly, wedi'u llunio i ddatblygu a gwella rôl strategol Llywodraeth Cymru o ran cynyddu cyfranogiad yn rhaglenni cyllido'r UE yn eu cyfanrwydd. Mae'r argymhellion yn cyflwyno themâu sy'n cael eu harchwilio'n fanylach ym mhenodau nesaf yr adroddiad hwn.

---

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 510, 20 Mawrth 2014

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 26 Mawrth 2014

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 163 a 171, 26 Mawrth 2014

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 178, 26 Mawrth 2014

## **Argymhellion 1 a 2: dylai Llywodraeth Cymru**

**Sicrhau bod y strategaeth newydd ar yr UE yn gosod amcanion clir i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ym mhob rhaglen UE sydd ar gael i Gymru, gan gynnwys bod gofyniad ar adrannau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymgysylltu o fewn eu cylch gwaith, a manteisio ar y profiad a'r arbenigedd sylweddol ar bolisi a chyllid yr UE sydd ar gael yng Nghymru ac ymhlith cynrychiolwyr ym Mrwsel.**

**Ystyried sefydlu "Hyrwyddwr Cyllid yr UE" yng Nghymru i roi arweiniad wrth yrru'r gwaith o ddarparu a gweithredu strategaeth newydd yr UE a darparu canolbwynt ar gyfer materion yr UE yng Nghymru.**

49. Byddem hefyd yn hoffi i Lywodraeth Cymru archwilio a datblygu gyda rhanddeiliaid allweddol strwythurau cymorth newydd i hwyluso cyfranogiad yn rhaglenni cyllido'r UE, gan fanteisio ar y syniadau da niferus a awgrymwyd yn ein hymchwiliad.

## **Argymhellion 3, 4, 5 a 6: dylai Llywodraeth Cymru**

**Sefydlu dolen gyswllt ganolog ar gyfer sefydliadau yng Nghymru ac ar gyfer y rhai y tu allan i Gymru sy'n chwilio am bartneriaid o Gymru.**

**Datblygu cymorth arbenigol, wedi'i deilwra, ar gyfer y sectorau ieuencid, addysg a thrafnidiaeth tebyg i fodel MEDIA Antenna y sector diwylliannol.**

**Meithrin partneriaethau rhwng rhanddeiliaid ledled y sectorau addysg uwch a phellach, byd busnes a'r trydydd sector i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da.**

**Adolygu'r gynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel er mwyn mynd i'r afael â bylchau cyfredol, yn enwedig o ran sut y gall busnesau, addysg bellach a'r trydydd sector a'r sectorau creadigol a diwylliannol gyrchu ei wasanaethau.**

## Symudedd rhyngwladol

---

### Erasmus+

50. Erasmus yw'r enw brand sy'n gysylltiedig â symudedd ym maes addysg uwch o fewn yr UE dros y 30 mlynedd diwethaf. Cafodd y rhaglen ei henwi ar ôl yr athronydd o gyfnod y Dadeni, ond hefyd mae'n sefyll am European Region Action Scheme for the Mobility of University Students.

51. Ar gyfer 2014-2020, bydd y brand "Erasmus" yn cael ei ehangu i Erasmus+ a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar dri cham gweithredu allweddol: symudedd dysgu unigol (a fydd yn cael y rhan fwyaf o'r cyllid); prosiectau cydweithredu yn canolbwyntio ar arloesi (partneriaethau strategol a chynghreiriau gwybodaeth/sgiliau); a chefnogaeth ar gyfer diwygio polisi. Bydd y rhaglen newydd yn cynnwys camau gweithredu ym maes addysg ysgolion (y Rhaglen Comenius gynt); addysg oedolion (y Rhaglen Grundtvig gynt); addysg uwch (y Rhaglen Erasmus gynt); hyfforddiant galwedigaethol a seiliedig ar waith (y Rhaglen Leonardo gynt); symudedd ieuencid, gwirfoddoli a chamau gweithredu dinasyddiaeth (Rhaglen Weithredu Ieuencid ar Waith ar wahân gynt); yn ogystal â pharhad camau gweithredu Jean Monnet.

52. Bydd cyfran fawr o'r rhaglen newydd yn cael ei darparu fel "camau gweithredu datganoledig" dan reolaeth Asiantaethau Cenedlaethol ym mhob Aelod-wladwriaeth. Y British Council a fydd yn parhau i wneud hyn yn y DU (gan ddarparu cefnogaeth i'r DU gyfan o'i swyddfa yng Nghaerdydd) ac Ecorys.<sup>27</sup> Mae'r "camau gweithredu canolog" yn cael eu rheoli o Frwsel, gan yr Asiantaeth Weithredol dros Addysg, Clyweled a Diwylliant.

53. Dywedodd y British Council wrthym:

"For all aspects of the lifelong learning programme...Wales is at least attracting its share of the budget in relation to the population size...In the case of youth, further education and schools, 7% or 8% of the budget is going to Wales, whereas the population size I would say is 4.8%, or something just under

---

<sup>27</sup> Mae Ecorys yn ddarparwr rhyngwladol sy'n darparu gwasanaethau ymchwil, ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar ddatblygu, darparu a gwerthuso polisi cyhoeddus

5%...If Wales had greater demand, it could have even more, potentially, because the UK is seen as a whole.”<sup>28</sup>

### **Manteision Erasmus**

54. Yn sgîl ein trafodaethau bord gron gyda myfyrwyr Erasmus a staff ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd, gwnaethom ddysgu fod profiad dysgu rhyngwladol yn bwysig ar gyfer datblygiad personol, gan roi hwb i hyder, cyflogadwyedd a hunan-barch. Cyfeiriodd yr Athro Colin Riordan, Llywydd ac Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd at dystiolaeth gref iawn ei fod yn cynyddu cyflogadwyedd [myfyrwyr], a hyd yn oed yn gwella cyfartaledd eu pwyntiau gradd.<sup>29</sup>

55. Dywedodd ECTARC, y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithrediad Rhanbarthol yn Llangollen, wrthym fod y canlyniadau yn eithaf syfrdanol:

“Every year, we send 100 to 120 graduates. We analyse the results of what they are doing now in the following six months: 61% are in full-time employment; 14% have gone on to professional training - a post-graduate certificate in education or equivalent; 13% are studying for a Master’s degree; 8% are employed abroad; 2% are in part-time freelance work; 1% are in training and another 1% are working freelance. No-one was unemployed six months after returning. These are staggering figures.”<sup>30</sup>

56. Mae Erasmus hefyd yn dwyn manteision i sefydliadau a'u henw da. Aeth yr Athro Russell Deacon, Darlithydd mewn Hanes a Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Gwent, ati i dynnu sylw at y manteision sylweddol o gael myfyrwyr Erasmus yn astudio yng Nghymru, megis yr argraff y mae myfyrwyr yn ei chael o Gymru a'r rhwydweithiau tramor y gellir eu datblygu o ganlyniad.<sup>31</sup> Credai:

“With the right joined up thinking the Erasmus programme could be adapted to Wales’s economic benefit to the potential of tens of millions of pounds in exports and inward investment. It could also substantially increase the learning experience of

---

<sup>28</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 12 Mawrth 2014

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 3 Ebrill 2014

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 12 Mawrth 2014

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 35-38, 12 Mawrth 2014

students studying in Wales by effectively internationalising the curriculum and drawing on this substantial international resource.”

## Y rhwystrau i Erasmus

57. Derbyniodd prifysgolion Cymru arian grant gwerth dros € 11 miliwn yn ystod 2006/7-2012/13 a daeth 5 y cant o fyfyrwyr y DU sy'n cymryd rhan mewn camau symudedd o brifysgolion Cymru. Prifysgol Caerdydd oedd y perfformiwr gorau. Fodd bynnag, clywsom gan y British Council fod bron dwywaith cymaint o fyfyrwyr yn dod i mewn i'r DU gyfan, gan gynnwys Cymru, o gymharu â'r nifer sy'n mynd allan."<sup>32</sup>

58. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ac mewn erthyglau ymchwil a gyflwynwyd gan yr Athro Deacon, tynnwyd sylw at anghysondeb mewn perfformiad rhwng prifysgolion cyn-1992 a'r prifysgolion newydd a grëwyd ym 1992: roedd myfyriwr o brifysgol cyn 1992 17 gwaith yn fwy tebygol o gymryd rhan yn Erasmus.<sup>33</sup> Priodolodd y dirywiad hwn yn bennaf at y ffaith bod cymryd rhan yn ofyniad gorfodol cyn 1992 ar gyfer tua 50 y cant o fyfyrwyr o gymharu â llai na 10 y cant ar ôl 1992.

59. Roedd yr Athro Deacon hefyd yn priodoli'r cyfraddau cymryd rhan is yn rhaglen Erasmus i lu o ffactorau megis diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd; rhwystrau iaith canfyddedig; pryderon ynghylch yr effaith ar astudiaethau; ffactorau personol megis dylanwad rhieni a chyfoedion; cyfyngiadau ariannol; a diffyg hyder. Yn ei dystiolaeth lafar cyfeiriodd hefyd at yr anawsterau yr oedd myfyrwyr yn eu hwynebu o safbwynt dod o hyd i lety tymor byr,<sup>34</sup> ynghyd â diffyg cydnabyddiaeth o brofiad rhyngwladol mewn nifer o raddau.

60. Roedd sylwadau'r Athro Deacon am y rhwystrau a wynebir gan ddarpar fyfyrwyr Erasmus yn debyg i'r rhai a fynegwyd yn ein trafodaethau bord gron gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd (gweler Atodiad C), yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â chyllid a gorfod talu am lety gartref a thramor. Pan wnaethom ofyn i'r Athro Riordan am y broblem hon dywedodd nad oedd yn ymwybodol ohoni, ond addawodd y byddai'n edrych i mewn

---

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 12 Mawrth 2014

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Russell Deacon, tudalen 2

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 12 Mawrth 2014



i'r broblem oherwydd os oedd rhwystrau, y byddai am wneud popeth o fewn ei allu i gael gwared arnynt.<sup>35</sup>

61. Mynegodd yr Athro Deacon bryderon hefyd am y diffyg ymgysylltu gan academyddion, sydd yn ei dro yn effeithio ar lefelau cyfranogi myfyrwyr:

“The biggest barrier that I have come across in the institutions is that the institutions do not facilitate or encourage academics to engage within the programme...So, what happens is that you lack expertise within the institution. So, students are obviously quite concerned that very few people go out there. They do not want to experiment on themselves; they want to see students who have been successful and gone on it, and they also want academic processes to know that it can be successful.”<sup>36</sup>

62. Clywsom yn ystod yr ymchwiliad fod gan wledydd megis yr Almaen gyfradd cyfranogi uchel yn Erasmus a hefyd rhaglen Erasmus drefnus dros ben ar gyfer myfyrwyr sy'n cyrraedd o dramor.<sup>37</sup> Dywedodd yr Athro Deacon wrthym:

“In Germany, often, for example, when we connected with departments for teacher training, the students were unable to gain employment unless they did spend a period abroad. So, it was compulsory, and if it was not compulsory, they would not expect to get an opportunity in employment. The more people that go on it, the more it encourages others and others feel concerned that they have stayed behind.”<sup>38</sup>

63. Roeddem yn awyddus i glywed gan ECTARC, oherwydd bod ei gyllid ar y cyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cael ei dorri, ac y bydd yn ei chael yn anodd dod o hyd i arian fel y gall barhau i anfon 200 o raddedigion y flwyddyn i Ewrop. Dywedodd ECTARC wrthym hefyd:

“It has been difficult for an organisation like ours to find the right route and who to speak to about it because it is higher education, but it is also careers and people in the labour market. The target group that we work with is very cross-

---

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 3 Ebrill 2014

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 12 Mawrth 2014

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 23 a 27, 12 Mawrth 2014

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 12 Mawrth 2014

cutting. I have had to go through our local AM and the Deputy Minister to find a route to get to speak to the right people in the Welsh Government to say, 'How can we get co-funding for this project?'"<sup>39</sup>

64. Pwysleisiodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Colegau Cymru bwysigrwydd cymryd rhan mewn rhaglenni UE i'r sector addysg bellach yng Nghymru. Disgrifiodd y papur ymgysylltu mewn rhaglenni UE fel rhan o fusnes craidd y sector o ran hyrwyddo adfywiad economaidd ac o safbwynt gwella sgiliau.<sup>40</sup> Mae Colegau Cymru ei hun yn chwarae rôl arweiniol drwy helpu colegau Cymru i ymgysylltu â'r rhaglenni, yn enwedig y rhaglen Leonardo, a phrosiectau cydweithredol o dan INTERREG yn y dyfodol.

65. Roedd gennym ddiddordeb mawr i glywed bod Colegau Cymru wedi penodi Cydlynedd Rhyngwladol yn 2010, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf ac yna gan Colegau Cymru, er mwyn annog dysgwyr a staff ym maes Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i gymryd rhan yn y Rhaglen Leonardo. Mae Colegau Cymru hefyd wedi cefnogi ymgysylltu â phartneriaid y tu allan i'r DU, o Catalunya, Gwlad y Basg ac Iwerddon, er enghraifft. Credwn fod canolfannau arbenigedd fel hyn yn hanfodol er mwyn defnyddio gweithgaredd ac effeithiolrwydd y sector yn bwrpasol i gyrchu cyfleoedd cyllido.

66. Tynnodd Colegau Cymru sylw at y ffaith nad oedd rhai o'r cronfeydd hyn a oedd yn cael eu gweinyddu'n ganolog ym Mrwsel yn cael eu cyrchu, er bod arian go iawn ynddynt.<sup>41</sup>

67. Credwn, felly, fod angen i Gymru ddatblygu dull mwy strategol o fanteisio ar y manteision y gall rhaglenni megis Erasmus + eu cynnig i fyfyrwyr unigol ac i sefydliadau yn eu cyfanrwydd.

### **Targedau ar gyfer cynyddu symudedd**

68. Mae'r Athro Colin Riordan wedi bod yn arloeswr ym Mhrifysgol Caerdydd ac ar lefel y DU yn ei waith proffil symudedd allanol myfyrwyr yn y DU a'r flaenoriaeth a roddir i hyn, nid yn unig yn yr UE, ond hefyd yn fyd-eang. Bu'n cadeirio'r Grŵp Llywio ar y Cyd ar Symudedd Allanol Myfyrwyr yn 2011 ac arweiniodd hyn at fabwysiadu

---

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 12 Mawrth 2014

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Colegau Cymru, paragraff 2

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 77, 12 Mawrth 2014

Strategaeth newydd y DU ar Symudedd Allanol ym mis Rhagfyr 2013. Yn y ddwy flynedd y mae wedi bod yn ei swydd yng Nghaerdydd, mae wedi gosod targed o weld 17 y cant o'r myfyrwyr a fydd yn graddio yn y Brifysgol yn 2017 yn ymgymryd â rhyw fath o astudiaethau tramor fel rhan o'u cwrs. Mae'r targed hwn yn cael ei gefnogi gan gynllun bwrsariaeth symudedd allanol gwerth £ 1.6 miliwn dros bedair blynedd, rhaglen leithoedd i Bawb, a chanolfan cyfleoedd byd-eang newydd, a fydd yn siop un-stop ar gyfer myfyrwyr sydd am fynd dramor, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth iddynt.

69. Dywedodd yr Athro Riordan:

“When we looked at it in Cardiff it turned out that we already had 12% of our students going abroad, and I set a target of 17% by 2017, which is **slightly whimsical** in a way, but the idea of that was so that it would stick in people's minds, and it actually has. We certainly want to go well beyond that, so I hope that before 2017 we will hit that target and then we will set much more ambitious ones.”<sup>42</sup>

70. Cafodd targed Prifysgol Caerdydd ei groesawu ar y cyfan gan lawer o'n tystion. Dywedodd y British Council:

“For institutions to set targets like this and set some of their own challenges really encourages them to think what the barriers are that they can address themselves by making some changes in their approach and curriculum.”<sup>43</sup>

71. Fodd bynnag, yn ein trafodaethau gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, clywsom fod gan rai cyrsiau, fel ieithoedd a meddygaeth, gyfraddau symudedd allanol llawer uwch nag eraill fel peirianeg, lle nad yw'r cwricwlwm wedi'i ryngwladoli cymaint.

72. Er bod Caerdydd ar flaen y gad ymysg prifysgolion o Gymru a Lloegr yn hyn o beth, mae'n dal i fod ymhell y tu ôl i wledydd megis yr Almaen, sydd â'r nod o gyrraedd targed o 50%. Pan ofynnwyd i'r Athro Riordan ddisgrifio lefel ymgysylltiad Llywodraeth Cymru yn strategaeth

---

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 5, 3 Ebrill 2014

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 12 Mawrth 2014

symudedd allanol y DU ac a oedd ei statws ar y lefel gywir, ymatebodd gyda'r ymadrodd cofiadwy, "Isel a dim".<sup>44</sup>

73. Fodd bynnag, roedd yr Athro Riordan wedi ei galonogi gan y newid mawr yn y DU, sydd bellach yn fwy cadarnhaol ynglŷn â symudedd allanol ym maes addysg uwch:

"We would be very happy to advise and assist other universities that want to go down the same route. However, it depends on the resources of the particular university. They may not be able to put in the same resource in that we can. However, there is plenty of support out there from the European Union and other sources."<sup>45</sup>

74. Clywsom gan yr Athro Riordan fod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn cyfrannu £2,250 ar gyfer pob myfyriwr sy'n astudio dramor (nid yn unig yn yr UE). Nid yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gallu gwneud yr un peth oherwydd cyfyngiadau ariannol, sy'n golygu y byddai'n rhaid i brifysgolion Cymru ariannu'r swm hwnnw eu hunain. Amcangyfrifodd yr Athro Riordan y gallai cyfraniad cyfatebol fod tua £1 filiwn i £2 filiwn.<sup>46</sup>

75. Rydym yn cydnabod dylanwad ac effaith sylweddol unigolion o safbwynt gyrru symudedd myfyrwyr, ond credwn hefyd fod angen ymrwymiad corfforaethol a strategol ar draws y sector addysg. Fel y dywedodd yr Athro Riordan, mae materion pwysig yn wynebu prifysgolion Cymru ond na ddylai hynny ein rhwystro rhag mynd i'r afael â'r mater.<sup>47</sup>

## **Argymhellion 7 a 8: dylai Llywodraeth Cymru**

**Bennu amcanion clir ar gyfer pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru i ymgysylltu mwy â'r strategaeth DU gyfan ar gyfer symudedd allanol myfyrwyr, gan gynnwys: ymgyrch i hyrwyddo manteision astudio a gweithio dramor, darparu cyrsiau dysgu iaith, cynorthwyo gyda darpariaeth llety tymor byr, rhyngwladoli'r cwricwlwm a darparu gallu a chyllid cymesur.**

---

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 3 Ebrill 2014

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 3 Ebrill 2014

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 26-29, 3 Ebrill 2014

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 3 Ebrill 2014

Gyda sefydliadau addysg uwch, archwilio'r posibilrwydd o greu rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol , gan gynnwys myfyrwyr Erasmus, sydd wedi astudio yng Nghymru a myfyrwyr o Gymru sydd wedi astudio dramor, er mwyn sicrhau bod eu cysylltiadau rhyngwladol yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

### **Mecanweithiau cymorth**

76. Awgrymodd Colegau Cymru y dylid cael siop-un-stop neu un ddolen gyswllt yn Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni dysgu gydol oes.<sup>48</sup> Roedd Rhwydwaith Mentergarwch Ewrop ym Mhrifysgol Abertawe hefyd yn ystyried bod gan Lywodraeth Cymru rôl o arwain drwy ddwyn ynghyd partneriaid i fanteisio ar gyfleoedd i gyrchu cyllid.<sup>49</sup>

### **Argymhelliad 9: dylai Llywodraeth Cymru**

**Ddwyn ynghyd sectorau addysg bellach ac uwch ac asiantaethau cenedlaethol fel y British Council, Ecorys a sefydliadau fel ECTARC i ddatblygu synergeddau, rhannu arferion gorau, a meithrin cysylltiadau i gyrchu elfennau cyllid ar wahân ac ymgysylltu â'r rhaglenni a gynhelir ar hyn o bryd o fewn y Comisiwn Ewropeaidd.**

77. Nododd Colegau Cymru hefyd fod cydweithredu rhwng yr elfen addysg a hyfforddiant galwedigaethol a'r elfen addysg uwch yn anodd oherwydd eu bod yn cael eu hariannu ar wahân, gyda meini prawf gwahanol ac asiantaethau rheoli gwahanol yn y DU - Ecorys ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol a'r British Council ar gyfer Erasmus+ gan ei fod yn berthnasol i addysg uwch. Cyfaddefodd Colegau Cymru fod llawer mwy y gellid ei wneud i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gydol oes yn y dyfodol, ac er nad oedd angen clir am gynrychiolaeth ym Mrwsel, roedd yn syniad y dylid ei ystyried.<sup>50</sup> Byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

### **Gwaith ieuenctid a gwirfoddoli rhyngwladol**

78. Credwn y dylai cyfleoedd i astudio a gweithio dramor fod ar gael nid yn unig drwy'r ffrydiau addysg alwedigaethol ac addysg uwch, ond

---

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 12 Mawrth 2014

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 26 Mawrth 2014

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 120-121, 12 Mawrth 2014

ar gyfer pob person ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn addysg lawn amser, cyflogaeth neu hyfforddiant ac o gymunedau neu deuluoedd lle nad yw teithio dramor a bod ag agwedd ryngwladol yn rhan arferol o dyfu i fyny. Felly, mae'r rhaglen Ieuencid ar Waith yn gyfrwng pwysig ar gyfer darparu'r mathau hynny o gyfleoedd.

79. Mae UNA Cyfnewid<sup>51</sup> yn cefnogi cyfranogiad yng Ngwasanaeth Gwirfoddol Ewrop, a oedd yn rhan o'r Rhaglen Ieuencid ar Waith ac a fydd yn cael ei ymgorffori yn Erasmus+ ar gyfer 2014-20. Bu UNA Cyfnewid yn siarad yn angerddol â ni am fanteision y cynllun ar gyfer rhoi hwb i gymhelliant a dyhead pobl ifanc a'r angen am y canlynol:

“Investing in longer term support mechanisms and seeing this as part of an on-going programme of youth work, so that European opportunities have a role to play within a wider youth work offer.”<sup>52</sup>

80. Dywedodd Connect Cymru<sup>53</sup> fod angen dull mwy strategol o gael gafael ar gyllid yr UE ar gyfer cyfleoedd gwaith ieuencid rhyngwladol, a defnyddiodd Gogledd Iwerddon fel esiampl dda:

“Groups, such as that in Northern Ireland, which is very well-organised strategically in this area, seem to be able to draw down, or there are groups within the country that seem to be better organised to draw down, significant amounts of funding that other nations do not draw down. So, for example, if we were working on something like the Barnett formula, Northern Ireland probably brings in somewhere in the region of three to four times the amount of funding that it would probably be allocated otherwise.”<sup>54</sup>

81. Cawsom wybod gan Connect Cymru nad yw'r British Council yn dymuno gweithio mewn partneriaeth â Connect Cymru fel Darparwr Gwybodaeth yng Nghymru, na gyda YouthLink Scotland a'r Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol. Credai Connect Cymru y gallai hyn fod yn fygythiad i annibyniaeth gweinyddiaethau datganoledig o ran sut y

---

<sup>51</sup> Elusen wedi'i lleoli yng Nghaerdydd yw UNA Cyfnewid sy'n cefnogi pobl i wirfoddoli ar brosiectau mewn dros 60 o wledydd

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 178, 12 Mawrth 2014

<sup>53</sup> Mae Connect Cymru yn hyrwyddo cyfleoedd gwaith ieuencid rhyngwladol ac yn Ddarparwr Gwybodaeth yng Nghymru ar gyfer elfen Ieuencid rhaglen Erasmus+, a gynhelir drwy femorandwm dealltwriaeth gyda'r British Council

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 12 Mawrth 2014

maent am i'r arian Ewropeaidd gael ei ddefnyddio orau o fewn lleoliad cenedlaethol.<sup>55</sup>

82. Pan holwyd y British Council am hyn dywedwyd wrthym ei fod yn hynod o awyddus i barhau i weithio gyda Connect Cymru ond na fyddai ei drefniant i Connect Cymru ddarparu gwasanaeth gwybodaeth ar lefel isel yn parhau gan ei fod yn ailstrwythuro'r gwasanaeth hwn (e.e. y wefan, y cyfryngau cymdeithasu a digwyddiadau a seminarau) ar gyfer ei holl waith yn y DU

“We will manage those as a single piece, rather than having small pieces of it delegated out in these little contracts, which, although they have been effective, we feel given the size and scope of the programme, there is a better way of doing this. We want our relationship with Connect Cymru to be a partner relationship to understand and better the links with Welsh Government policy on the youth service and to work with it and others. We know that there are hundreds of youth and voluntary organisations in Wales, and we want to be sure that we are properly connected, listening to and engaging with the voice of the youth sector in Wales.”<sup>56</sup>

83. Rydym yn ei chael yn anodd gwneud sylwadau ar yr effaith y bydd newid polisi y British Council yn ei chael oherwydd y diffyg cydnabyddedig o dystiolaeth o gyflawniadau gan sefydliadau yn y maes hwn.<sup>57</sup> Fodd bynnag, rydym yn croesawu sylwadau'r British Council ar recriwtio adnodd effaith ac asesu a gwerthuso i greu fframwaith ar gyfer asesu a gwerthuso manteision y rhaglenni hyn yn fwy systematig.<sup>58</sup> Credwn y gallai strwythur adrodd gan Bwyllgor Cynghori Cymru y British Council i Lywodraeth Cymru helpu yn hyn o beth.

84. Rydym hefyd yn nodi bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cadw data ar gyfranogiad cyffredinol gan y DU ar gyfer rhaglen symudedd addysg uwch Erasmus, ond nad yw ar lefel is na lefel Aelod-wladwriaeth.

---

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 184, 12 Mawrth 2014

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 12 Mawrth 2014

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 192, 12 Mawrth 2014

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 12 Mawrth 2014

## **Argymhelliad 10: dylai Llywodraeth Cymru**

**Fonitro tueddiadau o ran symudedd myfyrwyr, gan gynnwys data y British Council ar ei raglenni Erasmus+ a rhaglenni ieuenctid, a sicrhau bod canlyniadau ac effaith ymgysylltu a chyfranogi gan y sector ieuenctid yn cael eu dal yn systematig.**

85. Clywsom gan UNA Cyfnewid a Connect Cymru<sup>59</sup> y gallai'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer elfen ieuenctid y rhaglen newydd Erasmus +, os yw'n cael ei ddefnyddio'n strategol, helpu i wneud iawn am y toriadau i wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwnaed y pwynt yn dda y gallai hyd yn oed cyfraniad bach o safbwynt adnoddau gael effaith lluosydd anghymesur o ran rhoi budd i grwpiau o bobl ifanc anodd eu cyrraedd.

## **Argymhelliad 11: dylai Llywodraeth Cymru**

**Ystyried darparu cyllid strategol craidd ar gyfer sefydliadau ieuenctid yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i gyrchu mwy o gyllid yr UE ar gyfer gwaith ieuenctid a gwirfoddoli rhyngwladol.**

---

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 202-203, 12 Mawrth 2014



## Cydweithio rhyngwladol

---

### INTERREG

86. Mae'r rhaglenni INTERREG mwyaf perthnasol i Gymru ar gyfer 2014-20 wrthi'n cael eu paratoi. O ganlyniad, nid oes modd i ni wneud asesiad ar sail gwybodaeth ar hyn o bryd o'r cyfleoedd posibl i sefydliadau yng Nghymru yn sgil y rhaglenni. Rydym yn bwriadu cynnal rhagor o sesiynau tystiolaeth pan fydd manylion y rhaglenni ar gael, naill ai tua diwedd 2014 neu ddechrau 2015.

87. Nododd papur Llywodraeth Cymru fod partneriaid Cymru wedi cymryd rhan mewn 89 o brosiectau INTERREG yn ystod y cyfnod 2007-13, gan arwain at tua €41.5 miliwn o gyllid yr UE yn dod i Gymru. Mae'r gyfran fwyaf yn perthyn i raglen Iwerddon-Cymru (41 prosiect), wedyn y ddwy Raglen Drawswladol, Ardal yr Iwerydd (17 prosiect) a Gogledd-orllewin Ewrop (16 prosiect). Mae gan Gymru 13 Rhaglen Cydweithredu Rhyngranbarthol a dau brosiect URBACT.<sup>60</sup>

88. Yn ôl Colegau Cymru, mae rhaglenni INTERREG yn anoddach na'r rhaglenni symudedd gan fod angen cynghrair ryngwladol o golegau a sefydliadau technoleg ar draws ystod gymharol eang o wledydd Ewrop i gyrchu ffrydiau cyllido.<sup>61</sup> Her arall yw ceisio cynnal y partneriaethau yn ystod cyfnod y prosiect ei hun ac ar ôl hynny.

89. Dywedodd Colegau Cymru:

“It is very important that the INTERREG programmes form a coherent part of any Welsh Government strategy for European funding generally: that they are not seen as a separate part of it; and that there should be an identification of areas where INTERREG can contribute fully to Welsh Government policy and where there are those synergies with Welsh Government policy ...with sustaining partnerships, there could be an opportunity for the next round of programmes to have more involvement and more dissemination of information through events and communication to try to engage more organisations within the INTERREG programme in particular.”<sup>62</sup>

---

<sup>60</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru Atodiad A

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 112, 12 Mawrth 2014

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 130, 12 Mawrth 2014

90. Dywedodd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth (CILT) Cymru y gellid defnyddio INTERREG i ariannu prosiectau fel ehangu cysyniad Bwcabus<sup>63</sup> i ardaloedd eraill o Gymru neu i drosglwyddo gwybodaeth i Iwerddon, er enghraifft, drwy'r cynllun Iwerddon-Cymru.<sup>64</sup> Fodd bynnag, er i CILT nodi nifer o brosiectau posibl, roedd hefyd yn credu nad oedd y diwydiant trafndiaeth a logisteg wedi defnyddio digon o sefydliadau Cymru yn INTERREG yn ystod y cyfnod 2007-13.<sup>65</sup>

91. Yn ogystal, nododd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ddiffyg pwyslais ar y sector preifat:

“Much of the emphasis and availability of EU funding has, historically, been geared to the needs of the public and third sectors: little thought appears to have been made to the value of engaging private sector interest and investment to identify and support potential projects.”<sup>66</sup>

### **Cyfraniad awdurdodau lleol**

92. Derbyniwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd, a derbyniwyd tystiolaeth lafar gan Gyngor Sir Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ni dderbyniodd Gwynedd ein gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth lafar.

93. Er bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn rhaglenni fel Leonardo, Ieuencid ar Waith ac INTERREG, un o negeseuon allweddol y dystiolaeth a gyflwynwyd oedd bod y rhan fwyaf ohonynt wedi canolbwyntio'n bennaf ar y prif Raglenni Cronfeydd Strwythurol a Datblygu Gwledig: prin a thameidiog oedd y cyfranogiad mewn rhaglenni UE eraill. Yn ôl CLILC, y prif reswm am y pwyslais hwn yw'r ffaith fod y rhaglenni hyn fel pe baent wedi cynnig y cyfleoedd gorau i awdurdodau lleol gyrchu cyllid Ewropeaidd.<sup>67</sup>

94. Fodd bynnag, nodwyd ffactorau eraill hefyd, gan gynnwys diffyg arweiniad, strategaeth a gweledigaeth; absenoldeb un dolen gyswllt yn Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor ac arweiniad; y canfyddiad bod

---

<sup>63</sup> Rhwydwaith bysiau masnachol sydd ar gael yn ôl y galw yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yw Bwcabus

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 83, 26 Mawrth 2014

<sup>65</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CILT

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

<sup>67</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig paragraff 6 CLILC

ymweliadau tramor yn wastraff arian ac yn methu ychwanegu gwerth digonol; diffyg rhannu arferion da ac ymwybyddiaeth isel o'r cyfleoedd sydd ar gael.

95. Dywedodd Cyngor Sir Conwy nad oedd ganddo'r adnoddau i'w neilltuo yn yr un modd er mwyn ymgymryd â'r rhaglenni Ewropeaidd eraill.<sup>68</sup> Nododd y Cyngor y pwynt pwysig canlynol hefyd:

"We are very much driven by our own local authority and our own local strategies from our elected members. So, we do have to focus - they always want to see something at the end of the project. However, that is not always possible with INTERREG-type projects. While they are obviously very valuable in their own right, they do not put a building at the end of the street."<sup>69</sup>

96. Ar y llaw arall, dywedodd Cyngor Sir Powys ei fod wedi cymryd rhan sylweddol yn INTERREG IVC:

"It was the first time that the Council had been involved in this type of project, so it was a steep learning curve to begin with...However, we have seen some significant positive outcomes at the end...We found that, rather than reinventing the wheel, we could talk to partners across Europe and use the projects to focus on common problems and find out about the solutions that other local authorities and public sector organisations have found...At the same time, we have been able to share our experiences with them."<sup>70</sup>

97. Mae ymrwymiad a chyswllt gwleidyddol wedi bod yn allweddol i lwyddiant y prosiectau hyn:

"We have built from the very beginning of the programming period involvement at leadership level with the Cabinet member and the chief executive."<sup>71</sup>

98. Cododd Cyngor Sir Powys bwynt tebyg i Gyngor Sir Conwy ynglŷn â'r broblem ag ymrwymiad gwleidyddol:

"It is a bit more difficult to explain the benefits and the long-term sustainability of the results that can be achieved through

---

<sup>68</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 219, 12 Mawrth 2014

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 239, 12 Mawrth 2014

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 217, 12 Mawrth 2014

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 280, 12 Mawrth 2014

INTERREG, compared...to building a road or having a tangible output at the end of the project. What we have found, as a result of our involvement with the INTERREG projects in particular, is that the capacity of the officers within the authority and within the organisations that we work with has benefited the most. That provides a long-lasting, but less easily measurable, benefit within the authorities.”<sup>72</sup>

99. Roedd papur ysgrifenedig CLILC yn awgrymu nifer o gamau gweithredu i wella'r sefyllfa hon yn y dyfodol, fel hwyluso cydweithio ar draws sefydliadau a sectorau; creu timau arbenigol rhanbarthol yn cynnwys partneriaid allweddol, sy'n cael ei ystyried ar y cyd â WEFO; a hyrwyddo manteision ac arferion da yng ngwaith partneriaeth trawswladol. Roedd CLILC yn feirniadol o Strategaeth UE 2012 Llywodraeth Cymru.

100. Adleisiwyd y galw am ddull gweithredu mwy cydlynol a chydgysylltiedig gan y dystiolaeth a gyflwynodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB), Addysg Uwch Cymru Brwsel, Theatr Cynefin, Connect Cymru a Cholegau Cymru.

101. Ar sail y dystiolaeth, rydym yn dod i'r casgliad nad oes gan lywodraeth leol yng Nghymru agwedd strategol tuag at gyllid yr UE, a bod diffyg uchelgais yn amlwg hefyd. Er bod rhywfaint o ymarfer da, nid oes digon o gysondeb. Mae hyn yn gwbl wahanol i'r sector addysg bellach, sy'n llwyddo i gydweithredu'n effeithiol er bod ganddo lawer llai o adnoddau. Mae'n hollbwysig i CLILC fynd ati i ddangos arweiniad yn y maes hwn a bod yr adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gweithgarwch yr UE ym maes llywodraeth leol yn cael eu trefnu'n llawer mwy effeithiol yn y cyfnod 2014-20.

102. Roedd yn galonogol clywed datganiad y Gweinidog Cyllid ar 11 Ebrill<sup>73</sup> y byddai'r cyfrifoldeb am reoli rhaglen Iwerddon/Cymru ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru (WEFO), mewn partneriaeth â'r awdurdodau yn Iwerddon. Bydd gwerth cyfanswm y rhaglen hefyd yn cynyddu i tua €92 miliwn (tua £75 miliwn). Rydym yn credu bod hwn yn gyfle gwirioneddol i roi blaenoriaethau Cymru ar waith.

---

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 240, 12 Mawrth 2014

<sup>73</sup> Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, 11 Ebrill 2014

## **Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru**

**Weithio gyda llywodraeth leol i ddwyn ynghyd y bobl sydd â'r arbenigedd perthnasol i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cryfhau a hyrwyddo cyfranogiad uniongyrchol awdurdodau lleol yn y gwaith ehangach o ddatblygu a chychwyn ffrydiau polisi ac ariannu Ewropeaidd ac ar gyfer integreiddio'r cronfeydd gwahanol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Cymru.**

## Ewrop Greadigol

---

103. Rheolir Rhaglenni Ewrop Greadigol yn ganolog gan Asiantaeth Weithredol Addysg, Clyweledol a Diwylliant y Comisiwn Ewropeaidd. Mae “Desgiau Cenedlaethol” yn hwyluso cyfranogiad yn y rhaglenni, ond nid ydynt yn cyfrannu at y broses geisiadau ac asesiadau: mae hyn i gyd yn digwydd ym Mrwsel.

104. Mae rhaglen Cyfryngau'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu cymorth ar gyfer cynhyrchu ffilmiau, o'r cyfnod cyn-gynhyrchu i'r cyfnod dosbarthu, yn bennaf drwy roi grantiau uniongyrchol i gwmnïau a sefydliadau. Bydd tair menter newydd ar gael yn 2014 – Datblygu Cynulleidfaedd a Llythrennedd Ffilmiau, Cyd-gynyrchiadau Rhyngwladol a Gemau Fideo.

105. Yng Nghymru, cefnogwyd cyfres ddrama deledu “Hinterland/Y Gwyll” Fiction Factory drwy'r rhaglen Cyfryngau. Dywedodd cwmni Fiction Factory ei fod eisoes wedi gwerthu'r gyfres i fwy na dwsin o wledydd ar draws y byd, gan lwyddo i godi proffil y cwmni a phroffil dramâu o Gymru yn gyffredinol. Dywedodd y cwmni:

“Roedd uchelgais y gyfres yn fwy na'r arian a oedd ar gael gan y darlledwyr lleol, gan S4C a BBC Cymru. Felly, roedd yn hanfodol i'r prosiect ein bod yn cael yr arian hwnnw gan Ewrop, ac fe fydd yn hanfodol i'r prosiectau nesaf.”<sup>74</sup>

106. Yn y DU, y Ddesg Genedlaethol ar gyfer is-raglen y Cyfryngau yw'r Sefydliad Ffilm Prydeinig a'r Ddesg Genedlaethol ar gyfer yr is-raglen Diwylliant yw'r British Council. Ceir Antenâu sy'n dod oddi ar ddesg y Cyfryngau, sy'n cael eu cynnal gan y gwledydd ar wahân. Tîm diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Media Antenna Cymru. Rôl y tîm yw cynorthwyo cwmnïau clyweledol yng Nghymru i wneud ceisiadau am gyllid i weithio ar lefel fwy rhyngwladol.

107. Cawsom ein plesio gan dyst Media Antenna Cymru Llywodraeth Cymru. Siaradodd am bwysigrwydd chwilio am bartneriaid newydd, bod yn rhan o'r tîm diwydiannau creadigol ehangach, a cheisio sicrhau bod cwmnïau Cymru yn fwy cynaliadwy ar ôl derbyn y cyllid gwreiddiol ar gyfer cynyrchiadau:

---

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 98, 20 Mawrth 2014

“The beauty of the way that we deliver Media Antenna is that it sits within a creative industries team that is responsible for the delivery of the economic growth of the creative sector throughout the whole of Wales. So Media Antenna does not exist in isolation; it exists with all of the work that is going on to support the creative industries sector. So, all of it is completely integrated all the time. So, we are constantly looking out for new partners and new ways of working.”<sup>75</sup>

108. Fel rhan o’u tystiolaeth lafar, cyfeiriodd Fiction Factory a Chanolfan Gelfyddydau Chapter at yr amser a’r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i gyflwyno ceisiadau a phrosiectau cydweithredol ar gyfer y rhaglen Ewrop Greadigol. Roeddent yn awyddus i ganmol cymorth rhagweithiol, wedi’i deilwra Media Antenna a chymorth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a’r UK Cultural Contact Point ar gyfer y gwaith papur a’r gwaith gweinyddol.<sup>76</sup>

“Having a massive pile of papers to fill in, in order to get a bit of funding, can be frustrating. I think that that is one of the things that Judy, who runs MEDIA Antenna, is really good at. She sits with companies for quite extended periods of time and helps them to fill in their application forms and helps them to make sure that, by the time that the application form goes forward to Brussels, it is right and correct, so there is not lots of to-ing and fro-ing. So, she always checks the forms and helps companies to fill them in.”<sup>77</sup>

109. Credwn fod Media Antenna Cymru yn fodel llwyddiannus ac uchel ei barch ac y dylai sectorau eraill ei efelychu er mwyn ceisio sicrhau cyllid yr UE (gweler Argymhelliad 3 uchod). Roedd yn galonogol clywed y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth tebyg ar gyfer cyfranogiad yn is-raglen Diwylliant Ewrop Greadigol yn 2014-20. Rydym am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod deiliad y swydd yn meddu ar arbenigedd a gwybodaeth am sector y celfyddydau yng Nghymru er mwyn rhoi hygrdedd i’r swydd.

110. Nid oedd diffyg presenoldeb ym Mrwsel ar gyfer y diwydiant cyfryngau yng Nghymru yn broblem ym marn Fiction Factory neu

---

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 29, 20 Mawrth 2014

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion paragraffau 111-113 a 138-151, 20 Mawrth 2014

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 64, 20 Mawrth 2014

Chapter.<sup>78</sup> Fodd bynnag, clywsom fod y diwydiant cyfryngau yng Nghymru o dan anfantais bosibl wrth gyflwyno ceisiadau o dan y rhaglen Gyfryngau o gymharu ag Aelod-wladwriaethau eraill, oherwydd ei fod yn rhan o'r DU ac felly'n cael ei ystyried yn rhan o ddiwydiant clyweledol cryf.<sup>79</sup>

### **Argymhelliad 13: dylai Llywodraeth Cymru**

**Hyrwyddo sector diwydiannau creadigol Cymru yn Ewrop er mwyn sicrhau nad yw cwmnïau o Gymru o dan anfantais wrth wneud cais am gyllid drwy raglen Ewrop Greadigol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn rhan o ddiwydiant clyweledol cryf y DU yn gyffredinol.**

---

<sup>78</sup> Cofnod y Trafodion paragraffau 118-119, 20 Mawrth 2013

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion paragraffau 33 a 114, 20 Mawrth 2014



## Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T)

---

### Rheoliadau TEN-T a Chyfleuster Cysylltu Ewrop

111. Daeth dau Reoliad newydd yr UE sy'n pennu canllawiau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer datblygu'r rhwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd a sefydlu Cyfleuster Cysylltu i rym yn 2014.

112. Cyfres o rwydweithiau trafndiaeth ffordd, rheilffordd, awyr a dŵr o arwyddocâd strategol yw TEN-T, ac mae'r Undeb Ewropeaidd wedi nodi eu pwysigrwydd i hyrwyddo gweithredu effeithiol y farchnad fewnol a chryfhau cydlyniant economaidd a chymdeithasol.

113. Mae'r rhwydweithiau TEN-T craidd a chynhwysfawr a sefydlwyd gan y rheoliad TEN-T newydd yn cynnwys Cymru. Mae'n rhaid sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn unol â safonau seilwaith diffiniedig erbyn 2030 yn achos y naill a 2050 yn achos y llall. Fodd bynnag, nid yw Cymru wedi'i chynnwys yn unrhyw **goridorau** rhwydwaith craidd, sef y strwythurau gweinyddol a sefydlwyd i helpu i gyflwyno'r rhwydwaith craidd, er bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig hynny yn wreiddiol.

114. Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF) yw offeryn ariannol yr UE i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sectorau trafndiaeth, ynni a thelathrebu rhwng 2014 a 2020. Yn yr ymchwiliad hwn rydym wedi canolbwyntio ar elfennau trafndiaeth Cyfleuster Cysylltu Ewrop.

115. Mae rhwng 80 ac 85 y cant o gyllid CEF yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 1 o Reoliad CEF. Er bod y rhan fwyaf o'r prosiectau'n gysylltiedig â choridorau rhwydwaith craidd, mae prosiectau o Gymru wedi'u cynnwys yn yr atodiad, ac maent yn cael eu nodi fel prosiectau sy'n gysylltiedig â darnau eraill o'r rhwydwaith craidd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn coridor. Gall Cymru hefyd gyflwyno prosiectau o dan "flaenoriaethau llorwedol" eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

116. Caiff cyllid CEF ei reoli'n ganolog gan y Comisiwn Ewropeaidd a'i ddyrannu mewn dwy ffrwd: grantiau ac offerynnau ariannol arloesol. Gweinyddir y grantiau drwy'r Asiantaeth Weithredol Arloesedd a Rhwydweithiau (INEA, Asiantaeth Weithredol TEN-T cyn hynny) a'u dyfarnu yn dilyn proses gystadleuol. Mae'n rhaid i gynigion gael eu cyflwyno gan Aelod-wladwriaethau, ond gall sefydliadau rhyngwladol, cyd-ymrwymiaid, neu ymrwymiaid cyhoeddus neu breifat neu gyrff

a sefydlwyd gan Aelod-wladwriaethau gyflwyno cynigion os yw'r Aelod-wladwriaeth yn cytuno.<sup>80</sup> Mae'n rhaid i unrhyw geisiadau am grantiau o Gymru gael eu cymeradwyo'n gyntaf gan Adran Drafnidiaeth y DU.

117. Rheolir yr Offerynnau Ariannol Arloesol gan bartneriaethau a sefydlwyd gan y Comisiwn gyda Banc Buddsoddi Ewrop a sefydliadau ariannol eraill.<sup>81</sup>

### **Hepgor Cymru o'r rhwydwaith coridor craidd**

118. Ar 21 Tachwedd 2013, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth â swyddogion Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Symudedd a Thrafnidiaeth (DG MOVE) y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ystyried goblygiadau hepgor Cymru o rwydwaith y coridor, ac ystyried diben ac effaith y Rheoliadau a'r manteision posibl i Gymru.

119. Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd, er mai Llywodraeth y DU a arweiniodd y trafodaethau ar fapiau'r DU, roedd arbenigwyr o Gymru yn rhan o'r broses.<sup>82</sup> Cadarnhawyd y ffaith hon gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth pan ofynnwyd cwestiynau iddi ar 5 Rhagfyr 2013 ynglŷn â chyfraniad Llywodraeth Cymru at y trafodaethau ar rwydwaith TEN-T.

120. Yn ôl swyddog y Comisiwn Ewropeaidd, roedd Llywodraeth y DU wedi rhoi llawer o sylw i sefyllfa Cymru. Dywedodd fod Aberdaugleddau a Phrif Linell y Gogledd wedi'u hychwanegu at y rhwydwaith craidd ar gais Llywodraeth y DU.<sup>83</sup>

121. Dywedodd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd wrth y Pwyllgor:

“The corridors are only an implementation instrument. They are not a priority, as such, in the Connecting Europe Facility. The corridors re-group projects together that are in the core network, but they do not form a third layer of prioritisation. So there is only a distinction made between the comprehensive and core [networks].”<sup>84</sup>

---

<sup>80</sup> Senedd a Chyngor Ewrop, [Agreed text: Regulation establishing the Connecting Europe Facility](#), Tachwedd 2013, Erthygl 7

<sup>81</sup> Senedd a Chyngor Ewrop, [Agreed text: Regulation establishing the Connecting Europe Facility](#), Tachwedd 2013, Erthygl 14

<sup>82</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 175, 21 Tachwedd 2013

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 164, 21 Tachwedd 2013

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 150, 21 Tachwedd 2013

122. Ychwanegodd:

“If you are in a corridor, you will of course have access to information from other Member States from other Regions across the corridor, whereas not being included in such a corridor of course prevents you from having this tool, though it does not prevent you from applying in any call for proposals for any of the projects that would situate themselves in the core network.”<sup>85</sup>

123. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddo a fyddai sefyllfa Llywodraeth Ranbarthol yn cael ei gwanhau wrth wneud cais am gyllid drwy beidio â chael mynediad uniongyrchol i ddata a gwybodaeth drwy rwydwaith coridor, cytunodd y byddai hynny'n debygol. Yn ogystal, cynigiodd gymorth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn coridor.<sup>86</sup>

124. Roeddem yn arbennig o bryderus ynglŷn â'r ffaith nad oedd porthladd Caergybi wedi'i gynnwys yn TEN-T fel porthladd craidd. Ar 5 Rhagfyr dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru nad oedd yn gwybod pam i borthladd Caergybi gael ei hepgor o'r rhwydwaith craidd. Awgrymodd mai trothwy tunelledd oedd y rheswm posibl, neu'r ymrwymadau a fyddai'n deillio o gynnwys y porthladd. Fodd bynnag, nid oedd yn sicr oherwydd nad oedd ef na Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gyfrifol am drafnidiaeth pan gafodd y mapiau eu paratoi ac nid oedd wedi llwyddo i ganfod unrhyw waith papur.<sup>87</sup> Mae'r esboniad hwn yn anfodhaol iawn yn ein barn ni.

125. Ar 16 Ionawr aethom ati i holi Robert Goodwill AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Trafnidiaeth, a'i swyddogion, ynglŷn â sut y mae penderfyniadau ar seilwaith rhwydwaith craidd a chynhwysfawr Cymru yn cael eu gwneud, pam nad yw Cymru yn rhan o goridor rhwydwaith craidd bellach a sut bydd y Rheoliadau'n cael eu gweithredu.

126. Roedd yr ymatebion a gawsom yn cadarnhau bod yr holl broses drafod rhwng Caerdydd, Llundain a Brwsel ar y mapiau TEN-T a'r coridorau wedi bod yn ddryslyd ac yn annelwig. O ganlyniad, aethom ati i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

---

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 152, 21 Tachwedd 2013

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion paragraffau 172-173, 21 Tachwedd 2013

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 139, 5 Rhagfyr 2013

a DG MOVE yn gofyn am eglurhad pellach ynglŷn â'r materion a godwyd a'r gwersi a ddysgwyd. Ymatebodd y Gweinidog ar 5 Chwefror ac ymatebodd y Comisiwn Ewropeaidd ar 6 Chwefror. Yn ogystal, siaradwyd â DG MOVE yn ystod ein hymweliad â Brwsel ym mis Chwefror.

### **Cymryd rhan yn TEN-T/CEF yn y dyfodol**

127. Yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynglŷn â'r broses drafod ar gyfer y Rheoliadau newydd, roedd y ffigurau a gyflwynodd yr Adran Drafnidiaeth yn peri pryder i ni. Nododd y ffigurau hyn nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw gais am gyllid yn y rhaglen TEN-T ddiwethaf (2007-13). Ar y llaw arall, roedd Transport Scotland wedi cyflwyno 8 cais, er nad oedd unrhyw un ohonynt wedi bod yn llwyddiannus, tra bod Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno 11 cais, gyda 7 ohonynt yn llwyddiannus. Rydym yn dod i'r casgliad bod hyn yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y rhaglen a bod hwn yn gyfle mawr sydd wedi'i golli i Gymru.

128. Ar 21 Tachwedd 2013, argymhellodd y swyddog o'r Comisiwn Ewropeaidd y dylai Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor gysylltu â swyddogion y Comisiwn ynglŷn â gwneud cais am gyllid o'r CEF er mwyn sicrhau'r fantais fwyaf i Gymru o'r CEF, a chynigiodd gymorth i ddatblygu cyfres o brosiectau.

129. Ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at holl Aelodau'r Cynulliad ar 25 Tachwedd 2013 yn dweud:

“Mae Rhwydwaith Craidd Cymru yn cynnwys prif lein rheilffordd Crewe - Caergybi, ac rydym eisoes yn datblygu achos busnes ar gyfer buddsoddiad. Mae trafodaethau eisoes wedi dechrau ynghylch y posibilrwydd o arian TEN-T i helpu gyda datblygiad y prosiect hwn.”

130. Yn ystod ein hymweliad â Brwsel ym mis Chwefror, gwnaethom gyfarfod â swyddogion o DG MOVE ac o'r Asiantaeth Weithredol Arloesedd a Rhwydweithiau (INEA). Gwnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â sut i fanteisio ar CEF, gan gynnwys:

- Datblygu cyfres o brosiectau aeddfed sydd ag amcanion strategol clir, wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r rhaglen / y galw ac sy'n dangos gwerth ychwanegol yr UE;

- Cyswllt â swyddogion DG MOVE ac INEA sy'n gallu darparu cyngor a chymorth. Clywsom fod yr Alban a Gogledd Iwerddon yn datblygu eu perthynas ag INEA, ond nad oedd unrhyw gyswllt wedi bod gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar;
- Ystyried system o ddatblygu prosiectau mewn dau gam, gan ddechrau drwy astudio prosiectau posibl, cyn symud ymlaen at y prosiectau eu hunain;
- Cyswllt â'r cydgysylltwyr Ewropeaidd a fydd yn cefnogi'r rhwydwaith TEN-T.

131. Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth lafar diweddarach, roedd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth (CILT) Cymru yn beirniadu defnydd cyfyng Cymru o gyllid Ewropeaidd ar gyfer y sector trafndiaeth, gan nodi ei fod yn canolbwyntio'n benodol ar y sector teithwyr yn hytrach na'r sector cludo nwyddau.

132. Pwysleisiodd Porthladd Aberdaugleddau arwyddocâd TEN-T a CEF i Gymru:

“We are seeking to engage extensively with the Welsh Government and the UK Government to inform that process. I am sure that the Committee will be aware of the numbers associated with TEN-T; we think that there is about €26 billion to be allocated. There are 104 large core ports in the TEN-T network. If you do the math, that works out as a very large amount of money that Wales should be targeting, between its three TEN-T ports. My simplistic calculation would say that we should be trying to come up with £750 million to £1 billion-worth of projects. We have been submitting thoughts on investment plans to the Welsh Government. In the past, we have generally been successful in getting access to funding, but on a much smaller scale than the opportunity offered by TEN-T.”<sup>88</sup>

133. Cytunodd Stena Line Ports fod angen cyllid ar gyfer gwaith seilwaith wrth symud ymlaen.<sup>89</sup> Eto, daethom o hyd i rwystr posibl, a ddisgrifiwyd gan Borthladd Aberdaugleddau fel a ganlyn:

“I think the Welsh Government has been quite proactive in trying to engage with us and we are trying to participate. I

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 8, 26 Mawrth 2014

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 10, 26 Mawrth 2014

think the issue is that we realise that it is very much at the behest of the Welsh Government to liaise with the UK Government in order to try to move it forward.”<sup>90</sup>

134. Awgrymodd CILT hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi prosiectau trafndiaeth strategol (fel cysylltiadau rheilffordd traws gwlad) y tu allan i Gymru:

“It is a case of not just looking at what we are doing internally, but looking at what has been put forward from Westminster, and to have discussions with the Government at Westminster as to how this would have a benefit for Wales, so that when it does a cost-benefit analysis, the widest range of benefits are included.”<sup>91</sup>

135. Yn ystod ein hymweliad â Brwsel clywsom gan swyddogion DG MOVE ac INEA am y cyfleoedd sy’n deillio o brosiectau Traffyrdd y Moroedd (MoS). Roedd y swyddogion o’r farn y gallai prosiectau MoS fod yn eang iawn, o brosiectau Nwy Naturiol Hylifedig i brosiectau “clasurol” fel y rhai sy’n cludo nwyddau ar y rheilffordd yn hytrach na’r ffordd.

136. Nodwyd cyfle clir i ddatblygu prosiectau gyda phorthladdoedd yn Iwerddon. Eglurwyd y gallai Caerdybi fanteisio ar gymryd rhan mewn prosiectau gyda phorthladd rhwydwaith craidd fel Dulyn, hyd yn oed os nad yw wedi’i gynnwys yn y rhwydwaith craidd ei hun.

137. Er bod swyddogion yr UE yn meddwl ei bod yn “rhesymegol” y byddai Lerpwl yn cael ei ffafrio yn hytrach na Chaerdybi – gan ei fod yn borthladd craidd ar goridor a bod ganddo fwy o draffig – ni fyddai modd ystyried cyswllt y coridor rhwng Dulyn a Lerpwl heb ystyried Caerdybi. O ganlyniad, byddai’r Cydgysylltydd MoS yn awyddus i ystyried cyfleoedd o seilwaith Cymru, gan gynnwys Caerdybi. Roedd y swyddog o DG MOVE hefyd yn credu y gallai’r rhestr o brosiectau MoS gynnwys trydaneiddio’r lein i Aberdaugleddau.

138. Dywedodd cynrychiolwyr o sector porthladdoedd Cymru mai’r ffaith fod prosiectau rhaglen Traffyrdd Moroedd yr UE yn tueddu i fod yn fwy addas ar gyfer pellteroedd môr hirach sy’n gyfrifol am y diffyg

---

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion paragraff 14, 26 Mawrth 2014

<sup>91</sup> Cofnod y Trafodion paragraffau 92-94, 26 Mawrth 2014

cyfraniad yn y rhaglen.<sup>92</sup> Fodd bynnag, cyngor clir DG MOVE a'r INEA oedd bod cyfle i Gymru fanteisio ar y rhaglen.

139. Rydym yn dod i ddau gasgliad ar sail y dystiolaeth hon: yn gyntaf, mae gennym bryderon mawr ynglŷn â chyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn rhaglenni TEN-T yn y gorffennol, yn ogystal â'r gwaith o ddatblygu Rheoliadau TEN-T a CEF a'r diffyg gwaith papur clir yn nodi pryd y cafodd penderfyniadau eu gwneud a gan bwy. Credwn y dylai Gweinidogion a swyddogion fod yn atebol o hyd am y trafodaethau hanesyddol hynny.

140. Yn ail, rydym yn pryderu hyd yn oed yn fwy bod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid posibl yn ymddangos mor ansicr a difater ynglŷn â'u cyfranogiad yn y rhaglenni TEN-T a CEF newydd ac am gyflwyno ceisiadau am brosiectau yn y dyfodol. Pan oeddem wrthi'n casglu tystiolaeth, dangosodd gohebiaeth<sup>93</sup> gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod wedi gofyn i swyddogion geisio manteisio ar gyfleoedd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a phartneriaid eraill. Rydym yn edrych ymlaen at glywed canlyniad y trafodaethau hynny.

#### **Argymhellion 14, 15 ac 16: dylai Llywodraeth Cymru**

**Adolygu a dysgu o'r ymgysylltu blaenorol a gafwyd gyda DG MOVE ac Asiantaeth Weithredol TEN-T ym Mrwsel, gan ganolbwyntio ar drafod Rheoliadau diweddar TEN-T a CEF a'r diffyg ceisiadau o Gymru ar gyfer rhaglen 2007-13.**

**Datblygu perthynas waith agos â DG MOVE, yr Asiantaeth Weithredol Arloesedd a Rhwydweithiau a'r Cydgysylltwyr TEN-T er mwyn sicrhau bod Cymru'n manteisio'n llawn ar y CEF.**

**Gweithio gyda rhanddeiliaid o Gymru, yr Adran Drafnidiaeth a phorthladdoedd craidd mewn Aelod-wladwriaethau eraill, yn enwedig Iwerddon, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a datblygu cyfres o brosiectau priodol.**

---

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion paragraffau 42 a 49, 26 Mawrth 2014

<sup>93</sup> Llythyr at y Cadeirydd, dyddiedig 28 Ionawr 2014

## **Atodiad A – Cylch gorchwyl yr ymchwiliad**

---

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd:

- Deall y prif gyfleoedd ar gyfer sefydliadau yng Nghymru sy'n deillio o raglenni cyllid yr UE ar gyfer 2014-20 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.
- Ystyried i ba raddau y mae Cymru'n gweithredu mewn ffordd effeithiol i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gyllid o'r fath, gan gynnwys Strategaeth UE Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau y mae cyllid yr UE yn cael ei gynnwys yng nghylch cyllidebol Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.
- Nodi unigolion a sefydliadau sydd â hanes llwyddiannus o gymryd rhan mewn prosiectau/rhaglenni/mentrau'r UE, ac ystyried sut y gellid defnyddio eu profiadau a'u galluoedd yn effeithiol yn ystod 2014-2020.



## Atodiad B – Rhaglenni a gafodd eu cynnwys yn yr ymchwiliad

Rhaglenni	Disgrifiad cryno
Erasmus+	<p>Rhaglen i gefnogi addysg, hyfforddiant, ieuencid a chwaraeon. Mae'n cynnwys: (i) Symudedd dysgu unigolion (ysgolion, AB, AU, lleoliadau ieuencid, seiliedig ar waith); (ii) cydweithredu ar gyfer arloesi a chyfnewid arferion da (drwy bartneriaethau strategol, cynghreiriau gwybodaeth/sectorau (iii) cefnogaeth i ddiwygio polisïau (moderneiddio systemau addysg a hyfforddiant).</p> <p>Yn disodli'r <b>Rhaglen Dysgu Gydol Oes</b> a'r <b>Rhaglen Ieuencid ar Waith</b>, a rhai rhaglenni eraill. Mae chwaraeon yn cael eu cynnwys am y tro cyntaf.</p>
Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF)/TEN-T	<p>Cymorth ar gyfer buddsoddiadau seilwaith trafndiaeth ledled yr UE. (Noder: ni wnaeth yr ymchwiliad ystyried elfennau seilwaith digidol ac ynni'r CEF.)</p> <p>Cyflwynir mapiau newydd ar gyfer 2014-20 yn seiliedig ar Rwydweithiau Craidd a Chynhwysfawr. Cwblheir y mapiau craidd erbyn 2030 a'r mapiau cynhwysfawr erbyn 2050.</p>
COSME (Cystadleurwydd BBaChau)	<p>Rhaglen yr UE i gefnogi BBaChau a pholisi BBaChau. Camau i gefnogi: (i) mynediad i farchnadoedd (gan gynnwys Rhwydwaith Menter Ewropeaidd); (ii) mynediad i gyllid; (iii) entrepreneuriaeth, rheoleiddio gwell.</p>
Ewrop Greadigol	<p>Rhaglen i gefnogi'r sector diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Dwy is-raglen: Diwylliant a'r Cyfryngau.</p>
Cydweithredu Tiriogaethol (rhaglenni INTERREG)	<p>Cronfeydd Strwythurol (ERDF) i gefnogi 'cydweithredu tiriogaethol'. Tri dull cydweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Trawsffiniol (Rhaglen Cymru/Iwerddon). I'w rheoli gan WEFO.</li> <li>- Trawswladol (Rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop; Rhaglen Ardal yr Iwerydd). Awdurdodau rheoli heb eu cyhoeddi eto.</li> <li>- INTERREG EWROP (holl diriogaeth y DU - dysgu arferion gorau).</li> </ul> <p>Rhai meysydd thematig (e.e. Rhaglen Urbact III).</p>

## **Atodiad C – Digwyddiad rhanddeiliaid, 6 Mawrth 2014**

---

Aelodau yn bresennol: Keith Davies, William Graham, Rhun ap Iorwerth, Eluned Parrott, Joyce Watson

### **Diben**

Nod y digwyddiad hwn oedd rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor glywed safbwyntiau a phrofiadau myfyrwyr, staff ac academyddion Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ynglŷn â rhaglen Erasmus yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cynllun hwn yn galluogi myfyrwyr addysg uwch i astudio neu weithio dramor fel rhan o'u cwrs gradd, a staff i addysgu neu hyfforddi mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Bu pedwar ar bymtheg yn cymryd rhan yn y digwyddiad. Hwylusodd Aelodau'r Cynulliad drafodaeth yn y pum grŵp ar y tair thema ganlynol:

- Beth oedd wedi ysgogi'r myfyrwyr a'r staff i gymryd rhan mewn rhaglen gyfnewid; pa brofiadau a gawsant; a pha effaith a gafodd arnynt ar lefel bersonol ac academaidd;
- Y manteision a'r rhwystrau i annog rhagor o fyfyrwyr sy'n graddio i astudio'r tu allan i'r DU am gyfnod o'u hastudiaethau;
- Sut mae Cymru'n gallu cefnogi symudedd allanol myfyrwyr yn well a manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o gymryd rhan mewn rhaglenni'r UE fel Erasmus.

Aeth Aelodau'r Cynulliad ati i grynhoi prif bwyntiau pob grŵp i'r grŵp llawn.

### **Crynodeb o'r prif bwyntiau**

#### **1. Profiadau a manteision rhaglen Erasmus**

- Mae rhaglen Erasmus wedi bod yn llwyddiant digamsyniol.
- Mae Erasmus yn ehangu gorwelion, safbwyntiau a phrofiadau – mae'n rhoi mantais i fyfyrwyr a'u helpu i greu argraff.
- Mae Erasmus yn bwysig ar lefel wleidyddol gan ei bod yn datblygu dealltwriaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu

rhwydweithiau a chysylltiadau sefydliadol a phersonol, gan gynnwys ffrindiau am oes.

- Mae Erasmus yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chysylltiadau agosach â'r UE.
- Mae myfyrwyr Erasmus yn cyflawni ac yn perfformio'n well yn academiaidd.
- Mae myfyrwyr sy'n dewis gadael yn fwy tebygol o ymgymryd ag addysg ôl-radd.
- Mae myfyrwyr Erasmus wedi dilyn cyrsiau gradd amrywiol - e.e. ieithoedd modern, busnes, meddygaeth.
- Mae yna sawl ffactor ysgogi (e.e. prifysgol, ysgol).
- Roedd myfyrwyr Erasmus o'r farn fod cymorth gweinyddol Prifysgol Caerdydd yn "rhagorol", er eu bod yn credu bod dewis cymharol gyfyngedig o brifysgolion dramor i astudio ynddynt.
- Cefnogwyd targed Prifysgol Caerdydd sy'n nodi y dylai 17 y cant o fyfyrwyr sy'n graddio astudio dramor, ond mae angen gwella cysondeb ar draws adrannau a chysiau gwahanol, e.e. mae rhaglen Erasmus yn orfodol ar gyfer cyrsiau iaith, ond nid yw ar gael yn aml ar gyfer cyrsiau eraill oherwydd systemau credydau'r cyrsiau gradd.
- Nid oes gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd darged symudedd allanol ar hyn o bryd, ond bydd yn pennu targed cyn bo hir.
- Mae Erasmus Mundus yn bwysig ar gyfer hyrwyddo symudedd staff mewn gwledydd y tu allan i Ewrop.
- Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi cael llwyddiant mawr gyda rhaglen Erasmus Mundus, gan gymryd rhan mewn 12 prosiect ac arwain 6, sy'n fwy nag unrhyw sefydliad arall yn y DU.
- Yn ogystal â rhoi profiad gwych i fyfyrwyr, mae'n rhaid i Gymru fanteisio ar dalent o Gymru yn hytrach na dim ond cynyddu faint o dalent sy'n cael ei allforio.
- Mae yna fanteision clir ar gyfer prifysgolion a busnesau hefyd, e.e. cynyddu cyflogadwyedd, marchnata/atyniad prifysgolion, y cysylltiadau a'r rhwydweithiau sy'n cael eu cynnig i staff prifysgolion.

- Dylai symudedd ac astudio dramor fod yn rhan o bob cwrs gradd ac nid yn eithriad iddynt.

## **2. Rhwystrau i annog rhagor o fyfyrwyr sy'n graddio i astudio dramor**

- Mae'n gallu bod yn anodd denu myfyrwyr i raglen Erasmus - Mae'r nifer sy'n ei hastudio yn lleihau.
- Mae'n debyg mai arian yw'r rhwystr mwyaf, yn enwedig os oes rhaid i fyfyrwyr dalu ffioedd dysgu a thalu am lety dramor ac yn y wlad hon.
- O dan Erasmus+ ni fydd ysgoloriaethau a ariennir yn llawn ar gael bellach ar gyfer Erasmus Mundus.
- Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth o Erasmus mewn ysgolion ac ymysg myfyrwyr nad ydynt yn astudio iaith yn y brifysgol.
- Gall rhwystrau diwylliannol, fel diffyg hyder neu ganfyddiadau o wledydd ac ieithoedd eraill, atal myfyrwyr rhag astudio dramor. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyrsiau sydd ar gael mewn prifysgolion yn Ewrop yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg, felly nid oes rhaid i ddiffyg gwybodaeth am iaith Ewropeaidd fod yn rhwystr i'r rhai sy'n awyddus i astudio dramor.
- Gall rhieni fod yn rhwystr mawr hefyd gan eu bod yn gwneud cyfraniad allweddol at benderfyniadau yn ymwneud â chyrsgiau israddedig yn benodol.
- Mae myfyrwyr gofal iechyd yn tueddu i fod yn fenywod a/neu'n fyfyrwyr aeddfed sydd ag ymrwymadau teuluol, sy'n cyfyngu ar eu gallu i astudio dramor am gyfnod hir.
- Gall cyfnod estynedig dramor effeithio ar rai myfyrwyr Erasmus wrth iddynt geisio ail-afael yn eu bywyd a'u hastudiaethau yn eu prifysgol wreiddiol.
- Mae llawer o'r ysgogiad yn deillio o angerdd a brwdfrydedd staff unigol yn hytrach nag o strategaeth ystyrion.

## **3. Sut mae Cymru'n gallu cefnogi symudedd allanol myfyrwyr yn well**

- Mae angen strategaeth symudedd genedlaethol.

- Gellid darparu rhagor o gyllid i hyrwyddo a marchnata'r rhaglen a manteision cyfranogi – gan ei hwyluso o bosibl o un pwynt cyswllt ar gyfer Cymru gyfan.
- Gellid darparu cyllid (yn seiliedig ar brawf modd efallai?) i sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd.
- Dylai cyllid fod ar gael hefyd fel bod academyddion a chydgyssylltwyr yn gallu hwyluso rhwydweithio a chyfarfodydd â phartneriaid Ewropeaidd.
- Dylid codi ymwybyddiaeth o Erasmus ymysg myfyrwyr iau tua 14 i 15 oed drwy'r ysgolion, a chodi ymwybyddiaeth y Gwasanaeth Gyrfaoedd a phrifysgolion o'r rhaglen.
- Dylai pobl plentyn ysgol gael y cyfle i brofi ymweliadau cyfnewid dramor.
- Dylid defnyddio myfyrwyr Erasmus i hyrwyddo'r rhaglen a rhannu eu profiadau â myfyrwyr eraill drwy wneud datganiadau mewn darlithoedd a ffeiriau.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn sefydlu rhaglen o lysgenhadon ar gyfer ei chanolfan newydd yn yr hydref; mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi bod yn gweithio gydag ysgolion unigol – ac mae rhai ohonynt yn cymryd rhan amlycach na'i gilydd.
- Mae angen gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fanteision a gwerth cymryd rhan yn rhaglen Erasmus, yn enwedig ymysg rhieni.
- Gellid gwella gweinyddiaeth rhaglen Erasmus.
- Dylid annog rhagor o fyfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd i gymryd rhan yn rhaglen Erasmus.
- Byddai modd gwella'r broses o fonitro, mesur, meincnodi a gwerthuso symudedd myfyrwyr er mwyn nodi'r holl weithgarwch a chael ôl-drafodaeth lawn ar brofiadau myfyrwyr.
- Mae'n bwysig cadw mewn cysylltiad â myfyrwyr Erasmus drwy ddefnyddio cronfa ddata ac olrhain eu cyflogadwyedd a'u cyrchfannau mwy hirdymor.
- Gellir gwneud mwy i fanteisio ar y cysylltiadau rhwng myfyrwyr Erasmus a busnesau.

- Mae angen ysgogiad ac ymdrech ar lefel sefydliadol, gyda strategaeth ystyrlon sy'n ennyn cefnogaeth staff a myfyrwyr.
- Mae angen ymroddiad a brwdfrydedd gan unigolion - arloeswyr newid sy'n gallu denu adnoddau a gwneud i bethau ddigwydd.
- Mae angen rhagor o dargedau i gynyddu canran y myfyrwyr sy'n astudio dramor.
- Dylid sicrhau bod lleoliadau byrrach, mwy hyblyg ar gael (1 i 2 wythnos efallai) cyn bod myfyrwyr yn ymrwymo i gyfnewidiadau mwy hirdymor, a dylid darparu cyllid ar gyfer hynny, e.e. cynllun bwrsariaeth ar gyfer rhaglenni cyfnewid yn ystod yr haf.
- Dylid manteisio ar y cysylltiadau Ewropeaidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol er budd cyfnewidiadau ar gyfer myfyrwyr Cymru ac addysg uwch.
- Dylid cynnig hyfforddiant iaith i gefnogi myfyrwyr Erasmus.
- Dylid sicrhau bod dysgu ieithoedd yn orfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Dylid sicrhau bod cylchoedd semester a strwythurau gradd prifysgolion yn fwy cydnaws â thymhorau lleoliadau Erasmus.
- Dylai cyrff rheoleiddio sicrhau bod eu systemau achredu yn cydnabod gwerth myfyrwyr sy'n astudio dramor.
- Dylai myfyrwyr Erasmus gael credydau ychwanegol.
- Gellid cynnwys symudedd/gweithgarwch rhyngwladol yn y meini prawf ar gyfer dyrchafiad academiaidd/staff er mwyn hyrwyddo cyfnewid rhyngwladol.

## Tystion

---

Cyflwynodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. I weld trawsgrifiad llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ewch i:

[www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=1307](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=1307)

12 Mawrth 2014

**Yr Athro Russell Deacon**, Darlithydd Hanes a Gwleidyddiaeth, Coleg Gwent

**Sharron Lusher**, Pennaeth, Coleg Sir Benfro

**Dr Greg Walker**, Dirprwy Prif Weithredwr, Colegau Cymru

**Sharon Thomas**, Cyfarwyddwr Gweithredol, ECTARC

**Jessica Blair**, Dadansoddwr Polisi, y Sefydliad Materion Cymreig

**Simon Stewart**, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Glyndŵr ac Aelod o Bwyllgor Connect Cymru

**Helen Wales**, Cyfarwyddwr, UNA Cyfnewid

**Filippo Compagni**, Rheolwr Cyllid a Phrosiectau Ewropeaidd, Cyngor Sir Powys

**Barbara Burchell**, Prif Swyddog Datblygu Prosiectau Ewropeaidd, Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Helen Morgan**, Uwch Reolwr, Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru, Cyngor Sir Gaerfyrddin

20 Mawrth 2014

**Ruth Sinclair-Jones**, Cyfarwyddwr, Asiantaeth Genedlaethol y DU, Erasmus+, y British Council

**Natasha Hale**, Pennaeth Sectorau, MEDIA Antenna UK, Llywodraeth Cymru

**Elaina Gray**, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Canolfan Gelfyddydau Chapter

**Gethin Scourfield**, Cynhyrhydd, Fiction Factory Films

**Dr Anne Howells**, Swyddog Datblygu Ewropeaidd, Prifysgol Aberystwyth

**Dr Liz Mills**, Dadansoddwr Polisi Annibynnol

**Dr David Llewellyn**, Ymgynghorydd Annibynnol

**Jane Hutt AC**, Y Gweinidog Cyllid

**Damien O'Brien**, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Jeff Andrews**, Cyngorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru

**Jane McMillan**, Pennaeth Rheoli Rhaglenni (Cronfa Strwythurol Ewropeaidd)

26 Mawrth 2014

**Ian Davies**, Rheolwr Llwybrau, De Môr Iwerddon, Stena Line Limited

**Alec Don**, Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau

**Mark Andrews**, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, Porthladd

Aberdaugleddau

**Callum Couper**, Rheolwr Porthladd, Associated British Ports, De Cymru

**Dr Andrew Potter**, Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

**Martin Evans**, Cyn-gadeirydd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth

Cymru ac aelod o Fwrdd CILT

**Ceri Jones**, Yr Adran Ymchwil ac Arloesi, Prifysgol Abertawe

**Wyn Prichard**, Cyfarwyddwr Cymru, Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu

Cymru

3 Ebrill 2014

**Yr Athro Colin Riordan**, Llywydd ac Is-ganghellor, Prifysgol Caerdydd



## **Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig**

---

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. I weld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig ewch i:

[www.senedd.cynulliadcymru.org/mgConsultationDisplay.aspx?ID=101](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgConsultationDisplay.aspx?ID=101)

### **Sefydliad**

Addysg Uwch Cymru Brwsel ac Addysg Uwch Cymru

Amgueddfa Cymru

Association of British Ports

British Council ac Ecorys UK

CITB Cymru

Colegau Cymru

Connect Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

European Centre for Teaching and Regional Cooperation

European Training Services

Network Rail

Porthladd Aberdaugleddau

Porthladdoedd Stena Line

Prifysgol Abertawe

Prifysgol Caerdydd

Theatr Cynefin

Yr Athro Russell Deacon, Coleg Gwent